

# Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain



Gwarchod ein treftadaeth naturiol rhag  
rywogaethau goresgynnol



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



The Scottish  
Government



Department for Environment  
Food and Rural Affairs

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig  
Nobel House  
17 Smith Square  
Llundain SW1P 3JR  
Ffôn: 020 7238 6000  
Gwefan: [www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2008  
Y Goron biau'r hawlfraint o ran trefniant argraffyddol a dyluniad.

Gellir aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ar wahân i'r arfbais frenhinol a logo adrannau) am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei aildefnyddio'n gywir a ddim mewn cyd-destun sy'n camarwain. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y goron a nodi enw'r cyhoeddiad.

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

The GB Non-native Species Secretariat  
Central Science Laboratory  
Sand Hutton  
York  
YO41 1LZ  
Ffôn: 01904 462680  
E-bost: [nnss@csl.gov.uk](mailto:nnss@csl.gov.uk)  
CYHOEDDWDYD GAN ADRAN YR AMGYLCHEDD, BWYD A MATERION GWLEDIG

Product Code: PB13075

Derbynnir yn gyffredinol mai un o'r bygythiadau pennaf i fioamrywiaeth y blaned gyfan yw'r bygythiad a ddaw o du rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Rydym yn dod i ddeall mwyfwy am effeithiau ecolegol ac economaidd anferthol y gyfran fach o rywogaethau anfrodorol sy'n dod yn oresgynnol. Amcangyfrifwyd bod y niwed sy'n cael ei achosi yn fyd-eang gan rywogaethau goresgynnol yn werth hyd at bump y cant o economi'r byd.

I gydnabod pwysigrwydd y mater hwn ac yng ngoleuni nifer o ymrwymadau rhyngwladol ar fioamrywiaeth, mae llywodraethau Cymru, Lloegr a'r Alban wedi cydweithio'n agos ag amrywiaeth eang o bartneriaid allweddol er mwyn llunio ein hymateb iddo.

Rydym ar flaen y gad yn Ewrop yn datblygu fframwaith polisi cenedlaethol cynhwysfawr ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol ac rydym bellach wrth ein bodd i gyhoeddi Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain.

Mae hwn yn lwyddiant sylweddol, wedi'i seilio ar adroddiad yr adolygiad polisi cynhwysfawr a gyhoeddwyd yn 2003. Rydym yn croesawu'n gynnes y cyfraniad a'r cymorth helaeth a gafwyd ar bob cam o'r ffordd gan y sefydliadau a'r unigolion a fynegodd ddiddordeb yn y mater.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ein fframwaith lefel uchel ac yn manylu ar y camau allweddol sydd angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn eu hachosi. Mae ein gweledigaeth yn un gadarn ac eang ar sail partneriaeth, a bydd yn helpu i amddiffyn ein treftadaeth naturiol a'n buddiannau economaidd rhag y bygythiad cynyddol a difrifol hwn.



**Joan Ruddock**  
Minister for Climate Change  
Biodiversity and Waste, Defra



**Michael Russell**  
Minister for Environment  
Scottish Government



**Jane Davidson**  
Minister for Environment,  
Sustainability and Housing  
Welsh Assembly Government



<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>2</b>	<b>Amcanion Strategol</b>	<b>7</b>
<b>3</b>	<b>Cwmpas a Therminoleg</b>	<b>8</b>
<b>4</b>	<b>Mecanwaith Rhywogaethau Anfroddorol Prydain – Swyddogaethau a Chyfrifoldebau</b>	<b>9</b>
<b>5</b>	<b>Dull Strategol</b>	<b>10</b>
<b>6</b>	<b>Atal</b>	<b>11</b>
<b>7</b>	<b>Canfod yn Gynnar, Goruchwylio, Monitro ac Ymateb yn Gyflym</b>	<b>14</b>
<b>8</b>	<b>Lliniaru, Rheoli a Dileu</b>	<b>17</b>
<b>9</b>	<b>Codi Ymwybyddiaeth A Dealltwriaeth</b>	<b>20</b>
<b>10</b>	<b>Fframwaith Deddfwriaethol</b>	<b>23</b>
<b>11</b>	<b>Ymchwil</b>	<b>25</b>
<b>12</b>	<b>Cyfnewid a Chyfuno Gwybodaeth</b>	<b>27</b>
<b>13</b>	<b>Gweithredu ac Adolygu</b>	<b>29</b>
	<b>Atodiad 1: Ymrwymiadau Rhyngwladol ynghylch Rhywogaethau Anfroddorol Goresgynnol</b>	<b>30</b>
	<b>Atodiad 2: Argymhellion Allweddol “Adolygiad o’r Polisi Rhywogaethau Anfroddorol: Adroddiad y Gweithgor”, DEFRA, 2003.</b>	<b>32</b>
	<b>Atodiad 3: Gweithgor Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfroddorol Goresgynnol Prydain</b>	<b>33</b>
	<b>Atodiad 4: Mecanwaith Rhywogaethau Anfroddorol Prydain</b>	<b>34</b>
	<b>Atodiad 5: Strategaethau Cysylltiedig Allweddol</b>	<b>36</b>
	<b>Atodiad 6: Rhestr Fyrfodau</b>	<b>41</b>
	<b>Atodiad 7: Cyfeiriadau</b>	<b>42</b>

## Ein Gweledigaeth

O roi'r Strategaeth hon ar waith yn llawn, ein gweledigaeth yw y bydd bioamrywiaeth, safon bywyd a lles economaidd Prydain yn cael eu gwarchod yn well rhag effeithiau andwyol rhywogaethau anffroddol goresgynnol oherwydd y bydd:

- mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach am y peryglon a'r effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â rhywogaethau anffroddol goresgynnol, ac y byddwn yn llawer mwy gwyliadwrus ohonynt;
- ymdeimlad cryfach o rannu cyfrifoldebau ledled y llywodraeth, sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, rheolwyr tir a'r cyhoedd yn gyffredinol i ymddwyn a gweithredu mewn modd sy'n lleihau'r peryglon a achosir gan rywogaethau anffroddol goresgynnol neu eu heffeithiau; a,
- fframwaith ar gyfer mentrau lliniaru, rheoli neu waredu rhywogaethau anffroddol goresgynnol – yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol – er mwyn helpu i leihau effeithiau andwyol sylweddol rhywogaethau anffroddol goresgynnol ar rywogaethau a chynefinoedd sensitif a bregus.

## Pam fod angen Strategaeth?

- 1.1 Mae llawer o rywogaethau anffroddol wedi'u cyflwyno'n fwriadol i wledydd Prydain ers mil o flynyddoedd ac maent yn cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol, er enghraifft drwy'r sector amaethyddol, coedwigaeth, garddwriaeth, pysgodfeydd ac anifeiliaid anwes. Cafodd llawer o rywogaethau eraill eu cyflwyno'n ddamweiniol. Roedd archwiliadau gan Scottish Natural Heritage yn dangos bod 988 o rywogaethau anffroddol yn yr Alban, ac archwiliadau English Nature gynt yn dangos bod 2,271 o rywogaethau anffroddol yn Lloegr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, fel y Gastanwydden neu'r Dylluan Fach, yn ddiniwed neu wedi cyfrannu at dreftadaeth naturiol Prydain. Ond mae lleiafrif o rywogaethau anffroddol yn gallu rheoli a gormesu mewn amgylchedd lle gallant effeithio ar rywogaethau brodorol, trawsnewid ecosystemau ac achosi niwed i'r amgylchedd. Y rhywogaethau anffroddol goresgynnol hyn yw prif destun y Strategaeth hon.
- 1.2 Rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid anffroddol goresgynnol yw'r ail berygl fwyaf i fioamrywiaeth fyd-eang<sup>i</sup> ar ôl colli a difrodi cynefinoedd, a'r perygl mwyaf i ecosystemau bregus fel ynysoedd. Gyda chynnydd sylweddol yn symudiad pobl a nwyddau ledled y byd, maent yn broblem gynyddol o ran gwarchod bioamrywiaeth, ac yn berygl i fuddiannau economaidd fel amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd. Rydym wedi deall natur gwirioneddol y perygl gan rywogaethau anffroddol goresgynnol yn well yn ddiweddar, gan gynnwys y faith bod pobl wedi'u cyflwyno yn y gorffennol heb sylweddoli goblygiadau posibl hynny'n llawn.
- 1.3 Rhywogaethau anffroddol goresgynnol yw un o'r prif ffactorau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth fel y nodwyd yn adroddiad Asesu Ecosystem y Mileniwm "*Ecosystem and Human Well-being: Biodiversity Synthesis*"<sup>ii</sup>. Un o brif negeseuon yr adroddiad yw mai newid cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau dieithr goresgynnol, gordddefnyddio a llygredd yw'r prif ffactorau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth a newid yr ecosystem. Mae'n dweud bod rhywogaethau anffroddol goresgynnol yn dal i sbarduno newidiadau mawr mewn bioamrywiaeth, bod llawer o rywogaethau wedi diflannu yn enwedig ar ynysoedd, ac mai cyflwyno rhywogaethau anffroddol goresgynnol yw un o'r prif resymau dros golli rhywogaethau mewn systemau dŵr ffres.



- 1.4 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei bod hi'n aml yn anodd a drud iawn i reoli neu gael gwared ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol unwaith y maent wedi ymsefydlu, tra bod atal ac ymyrraeth gynnar yn fwy llwyddiannus a chost-effeithiol.
- 1.5 Mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn broblem fyd-eang, ac mae sawl llywodraeth yn ymrwymo i fynd i'r afael â hynny trwy gyfrwng sawl cytundeb rhyngwladol. Mae crynodeb ohonynt yn Atodiad 1.

## Newid yn yr hinsawdd

- 1.6 Bydd newid yn yr hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth yn y blynyddoedd i ddod – trwy effeithio ar ddsbarthiad ein rhywogaethau brodorol, a galluogi rhywogaethau anfrodorol i ddod yn fwyfwy cyffredin. Hefyd, efallai y bydd mwy a mwy o rywogaethau anfrodorol sy'n ddiniwed ar hyn o bryd yn datblygu'n fwy goresgynnol wrth i'r hinsawdd newid. Rydym eisoes yn gweld rhywfaint o dystiolaeth bod anifeiliaid yn ymestyn y tu hwnt i'w cynefinoedd arferol neu ddisgwyliedig. Mae ymchwil diweddar hefyd yn dangos



*Mae newid yn yr hinsawdd yn debyg o achosi llawer mwy o lifogydd, a gallai'r sefyllfa waethygu yn sgil planhigion goresgynnol yn tagu'r dyfrffyrdd.*

bod y rhywogaethau hyn sy'n ymestyn eu cynefinoedd (i'r gogledd yn gyffredinol) yn cynnwys gloynnod byw, molysgiaid môr ac adar a phlanhigion mudol yn cyd-fynd â phatrymau newid yn yr hinsawdd sydd wedi digwydd yn y DU dros y 30 mlynedd diwethaf. Ymateb newid yn yr hinsawdd yw un o'r ffactorau sy'n gyfrifol am ehangu cynefinoedd rhywogaethau, a bydd hyn yn parhau dros y degawdau nesaf. Yn hynny o beth, nid yw mesurau ataliol ac ymgais i ddileu'r broblem yn ymarferol, a gallai rhywogaethau newydd fanteisio ar unrhyw gyfle i ymsefydlu. Er hynny, nid yw rhywogaethau anfrodorol sy'n cyrraedd ohonynt eu hunain, sy'n cael eu gyrru gan newid yn yr hinsawdd, ac sy'n dangos nodweddion goresgynnol o angenrheid wedi'u heithrio o'r mesurau sy'n cael eu cynnig yn y Strategaeth hon, fel canfod, gwyliadwriaeth, lliniaru, a lle bo'n briodol, rheoli. Yn y tymor hir, bydd angen cynnal trafodaethau pellach ynglŷn â rhywogaethau anfrodorol sy'n gwladychu oherwydd newid yn yr hinsawdd a hynny o safbwynt gwyddonol a pholisi.

## Materion economaidd

- 1.7 Heblaw am gostau bioamrywiaeth, mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol hefyd yn gallu achosi costau economaidd anferthol i bob math o sectorau gwahanol, sydd efallai'n golygu sawl biliwn o bunnoedd ym Mhrydain bob blwyddyn. Er enghraifft, disgwyliar y bydd angen gwario sawl miliwn o bunnoedd i ymdrin â chwyn goresgynnol fel clymog Japan ar diroedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012.

- 1.8 Mae llawer o systemau eisoes wedi'u hen sefydlu ac ar waith i ymdrin â rhywogaethau anffroddol goresgynnol ym Mhrydain; er hynny, maent yn dueddol o ganolbwyntio'n bennaf ar feysydd traddodiadol sy'n bwysig i'r economi, fel iechyd anifeiliaid, planhigion a physgod. Yn 2001, dechreuodd DEFRA adolygiad cynhwysfawr o'r polisi ar gyfer rhywogaethau anffroddol, a chyhoeddwyd yr adroddiad yn 2003<sup>iii</sup>. Mae prif argymhellion yr adroddiad yn atodiad 2 y ddogfen hon. Y prif gasgliad oedd bod yna ddiffyg cydgysylltiad a chyfeiriad strategol ynglŷn â'r cyfrifoldebau a'r camau gweithredu mewn perthynas â rhywogaethau anffroddol; sy'n golygu nad ydym yn manteisio i'r eithaf ar y gallu a'r adnoddau cyfredol ym Mhrydain i fynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau anffroddol goresgynnol ar fioamrywiaeth. Cadarnhawyd y diffyg hwn ymhellach mewn gwaith ymchwil dilynol i'r ffaith fod cyfrifoldebau ynglŷn â rhywogaethau anffroddol wedi'u gwasgaru ledled llywodraethau gwahanol, eu cyrff cysylltiedig amrywiol a llywodraeth leol.



*Cafodd clymog Japan, planhigyn hynod oresgynnol, ei gyflwyno i wledydd Prydain yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n eithriadol o anodd i gael gwared arno, ac yn costio miliynau o bunnoedd i'r diwydiant datblygu bob blwyddyn.*

## Cynnwys y Strategaeth

- 1.9 Mae Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Anffroddol Goresgynnol Prydain (NNS), a sefydlwyd yn sgil adroddiad arolwg 2003, wedi comisiynu'r Strategaeth Fframwaith hon gyda'r nod o fynd i'r afael â'r gwendidau allweddol yn ein gallu i ymateb i'r peryglon a achosir gan rywogaethau anffroddol. Mae'n cwmpasu holl argymhellion allweddol adroddiad arolwg 2003, ac mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i Weithgor y Strategaeth a nodir yn Atodiad 3, am ei waith.
- 1.10 Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod materion rhywogaethau anffroddol goresgynnol yn berthnasol i lawer iawn o randdeiliaid, gan gynnwys adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau anllywodraethol, amrywiaeth eang o fuddiannau'r sector diwydiant a masnach, tîrfeddianwyr, ymchwilwyr a'r cyhoedd. Wrth baratoi'r Strategaeth, fe wnaethom ofyn am gyfraniad sylweddol gan randdeiliaid, gan gynnwys neilltuo fforwm blynyddol Rhanddeiliaid Rhywogaethau Anffroddol 2006 i ddatblygu'r camau cyntaf o'r gwaith datblygu, a defnyddio gweithdai Fforwm 2007 i gael ymateb pellach i'r Strategaeth ddrafft.



- 1.11 Mae Strategaeth Prydain yn cyflwyno fframwaith ar fynd i'r afael â rhywogaethau anffordorol ac unrhyw berygl gan rywogaethau goresgynnol ym Mhrydain neu i Brydain mewn modd mwy cydgysylltiol a strwythuredig. Mae'n cynnwys mesurau ataliol mwy cydgysylltiedig a strategol i leihau nifer y rhywogaethau anffordorol niwedol sy'n cael eu cyflwyno ym Mhrydain. Trwy weithredu'r Strategaeth, bydd modd canfod unrhyw rywogaethau anffordorol goresgynnol posibl ynghynt trwy ddefnyddio dulliau monitro a goruchwylio gwell ac sydd wedi'u targedu'n well. Lle bo'n briodol, ac yn amodol ar adnoddau a gallu technegol digonol, bydd cynlluniau wrth gefn a gallu gwell i weithredu'n bendant yn ein galluogi i ymateb yn gyflymach er mwyn dileu'r rhywogaethau goresgynnol sydd newydd gyrraedd yma. Dylai'r Strategaeth hon sicrhau dull mwy effeithlon a phenodol o reoli a lliniaru'r rhywogaethau hyn, a'u dileu lle bo hynny'n angenrheidiol ac ymarferol. Bydd hefyd yn codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, a mwy o waith ymchwil strategol a chynigion am fframwaith deddfwriaethol gwell.
- 1.12 Bydd angen gweithio mewn partneriaeth gref i weithredu'r Strategaeth yn llwyddiannus, gyda phawb â diddordeb yn y pwnc yn cyfrannu'n llawn at y gwaith. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar ymdrechion ar y cyd i reoli'r sefyllfa gan dirfeddianwyr, gwaith monitro a goruchwylio'r cyrff cadwraeth a defnyddio'r mecanweithiau lefel uchaf a gyflwynwyd gan lywodraethau. Yn bennaf oll, bydd angen codi llawer mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion hyn ymysg y cyhoedd.



*Mae briallu'r dŵr (Ludwigia peploides/grandiflora), rhywogaeth o Dde America, wedi gadael eu marc yn sylweddol yn Ffrainc. Mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal ym Mhrydain ar hyn o bryd i weld beth yw'r ffordd orau o ddileu'r ychydig enghreifftiau gwylt ohonynt sydd yma, cyn iddynt ddatblygu i fod yn broblem ddifrifol.*

## Defnyddio dull ataliol – manteision disgwylidig:

Nod y Strategaeth yw sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli adweithiol a defnyddio dull mwy ataliol, a defnyddio'r adnoddau cyfredol yn well er mwyn lleihau'r pwysau ecolegol, economaidd ac ariannol a achosir gan rywogaethau goresgynnol yn y dyfodol.

Yn 2006, cynhaliwyd archwiliad o gyfrifoldebau ledled llywodraethau, asiantaethau a llywodraeth leol. Nodwyd 101 o unedau busnes oedd â rhywfaint o gyfrifoldeb dros rywogaethau anffrodorol. Roedd unedau busnes yn cynnwys adrannau cyfan, isadrannau allweddol o fewn adrannau a chyrrff cyhoeddus ac asiantaethau gweithredol anadrannol. Un casgliad pwysig a welwyd oedd bod adnoddau sylweddol yn cael eu neilltuo ar gyfer materion rhywogaethau anffrodorol – gyda rhai wedi'u targedu'n benodol at faterion, ac eraill trwy swyddogaethau neu gyfrifoldebau eraill. Nid oedd chyrrff anllywodraethol yn rhan o'r archwiliad.

Roedd yr amser roedd unedau busnes yn ei dreulio ar faterion rhywogaethau anffrodorol yn amrywio o lai na 5 awr i dros 22,000 awr y flwyddyn. Yn yr Alban, amcangyfrifwyd bod pum uned fusnes allweddol yn gwario tua £450,000 y flwyddyn ar faterion iechyd planhigion. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gwario tua £400,000 y flwyddyn ar faterion iechyd planhigion/coed ledled gwledydd Prydain, ac mae Isadrannau Iechyd Planhigion DEFRA yn gwario oddeutu £10 miliwn y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf ohono ar rywogaethau anffrodorol. Roedd yr archwiliad hefyd yn amcangyfrif fod unedau ymchwil allweddol wedi gwario £2.1 miliwn ar faterion rhywogaethau anffrodorol yn 2005.

Roedd yr archwiliad yn ategu barn grŵp archwilio polisi 2003 ynglŷn â'r angen am fwy o gydlyn strategol ac amcanion cyffredinol cliriach fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Mae casgliadau'r archwiliad hefyd yn pwysleisio bod angen cyflwyno'r mesurau allweddol a gynigir yn y Strategaeth hon.

Heblaw am eithriadau amlwg fel trefnau iechyd planhigion, roedd archwiliad 2006 yn dangos nad oes fawr o bwyslais yn cael ei roi ar fesurau rheoli risg ataliol ar hyn o bryd, er bod nifer o rywogaethau anffrodorol goresgynnol newydd posibl wedi'u cofnodi. Er hynny, mae briallu dŵr De America – *Ludwigia grandiflora* – yn enghraifft dda o fabwysiadu dull ataliol. Yn 2006, comisiynodd Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol Prydain waith ymchwil i ddulliau effeithiol o ddileu achosion hysbys o'r planhigyn hwn am ychydig o dan £10,000 yn unig. Mae'r planhigyn wedi hen ymsefydlu yn Ffrainc eisoes, ac mae'n costio miliynau lawer o Ewros y flwyddyn i'w reoli. Ychydig iawn o obaith sydd o'i ddileu'n llwyr. Amcangyfrifir ei bod hi'n costio dros £3 miliwn y flwyddyn i reoli rhywogaethau planhigion dyfrol anffrodorol eraill ym Mhrydain (ceiniog y gors, pluen parot a briweg y gors Awstralia).

Mae clymog Japan, un o'r rhywogaethau planhigion anffrodorol goresgynnol sydd wedi hen ymsefydlu ac sy'n dal i achosi costau i sawl sector – yn enghraifft o bwysigrwydd canfod a gweithredu'n gynnar, a'r ffaith na ellir cynnal y dasg o'i ddileu ledled y wlad. Yn ôl gwaith ymchwil, byddai rhaglen ddileu dair blynedd ar gyfer Cymru'n unig wedi costio £53.3 miliwn pe bai'r rhaglen wedi dechrau yn 2001, a £76 miliwn pe bai rhaglen o'r fath wedi cychwyn yn 2007.

Tra bydd camau rheoli bob amser yn angenrheidiol ar gyfer rhywogaethau goresgynnol sydd wedi ymsefydlu, oni bai y gwneir penderfyniad pendant i'w dileu'n llwyr, mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio fwy ar fesurau ataliol a chymryd camau gweithredu penodol a chyflym – gan gynnwys buddsoddi nawr i leihau neu atal mwy o bwysau a chostau yn sgil rhywogaethau anffrodorol goresgynnol yn y dyfodol.

## 2 Amcanion strategol

2.1 Nod cyffredinol y Strategaeth hon yw lleihau'r peryglon a'r effeithiau negyddol a achosir gan rywogaethau anfrodorol goresgynnol yng ngwledydd Prydain.

Amcanion penodol y Strategaeth yw:

- egluro a chydgysylltu cyfrifoldebau a swyddogaethau'r llywodraeth a'i chyrrff cysylltiedig yn well;
- codi mwy o ymwybyddiaeth o faterion rhywogaethau anfrodorol a hyrwyddo newidiadau priodol mewn ymddygiad neu agweddau ledled y sectorau perthnasol;
- lleihau, a lle bo'n bosibl, atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag cael eu cyflwyno'n fwriadol ac anfwriadol;
- sicrhau bod trefniadau ymateb wrth gefn effeithiol ar waith, a bod digon o adnoddau i atal achosion newydd lle bo'n bosibl;
- helpu i sicrhau bod yna ddigon o adnoddau ar gyfer cymryd camau cynaliadwy i reoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol;
- darparu fframwaith penderfyniadau effeithiol a phrosesau cyfathrebu cysylltiedig yn ymwneud â rheoli, lliniaru a dileu rhywogaethau anfrodorol goresgynnol;
- cydgysylltu'r camau i fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn well, ar y cyd â grwpiau buddiant allweddol y tu allan i'r llywodraeth;
- defnyddio'r gallu a'r adnoddau gorau posibl i wella'r gwaith o ganfod a monitro,
- nodi'r bylchau a'r meysydd blaenoriaeth i'w datblygu ymhellach (yn ymwneud ag atal, monitro, rheoli a deddfu er enghraifft).

2.2 Mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn cael eu cydnabod fel bygythiad i fioamrywiaeth ar lefel fyd-eang, gyda Phenderfyniadau ynglŷn â'r mater hwn yn deillio o bumed, chweched, seithfed ac wythfed cynadleddau'r pleidiau i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Penderfyniadau hyn, yn enwedig yng nghyd-destun Ewropeaidd, ac felly'n rhoi ystyriaeth benodol i'r Strategaeth Ewropeaidd ar Rywogaethau Goregynnol Estron<sup>iv</sup> a ddatblygwyd dan Gonfensiwn Bern yn 2003. Mae hefyd yn ystyried amcan 5 "Cynllun Gweithredu'r UE ar gyfer 2010 a thu hwnt"<sup>v</sup> a atodwyd yn nogfen gyfathrebu 2006 yr Undeb Ewropeaidd Atal Colli Bioamrywiaeth erbyn 2010 – a thu hwnt<sup>vi</sup>. Roedd yn galw ar yr Aelod-wladwriaethau i ddatblygu strategaethau cenedlaethol ar rywogaethau goresgynnol estron, a hefyd ar y Comisiwn Ewropeaidd i ddatblygu Strategaeth UE.

### 3 Cwmpas a therminoleg

- 3.1 Nod y Strategaeth hon yw mynd i'r afael â'r materion rhywogaethau anffroddol goresgynnol ar sail Prydain gyfan, ac mae strategaeth debyg ar waith yn Iwerddon ar hyn o bryd. Mae Prydain ac Iwerddon yn unedau daearyddol unigryw yn hyn o beth; gyda'r moroedd o amgylch ein harfordiroedd yn creu rhwystr naturiol i symudiadau llawer o rywogaethau ac yn ein galluogi i ganolbwyntio ar ardal ddaearyddol. Felly, mae cydweithio trawsffiniol rhwng gwahanol weinyddiaethau Prydain yn hanfodol er mwyn mabwysiadu dull ecolegol ac ecosystem gadarn i fynd i'r afael â rhywogaethau anffroddol goresgynnol. Cynhaliwyd adolygiad polisi 2003 ar sail Prydain gyfan, ac mae'r Strategaeth yn dilyn hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen meithrin cysylltiadau â dull Iwerddon gyfan o fynd i'r afael â rhywogaethau anffroddol.
- 3.2 Er mai Strategaeth ar gyfer Prydain yw hon, mae'n cydnabod y bydd materion yn codi ar lefel genedlaethol a mwy lleol hefyd. Bydd rhywogaethau a blaenoriaethau penodol yn amrywio o wlad i wlad, a rhwng rhanbarthau ac ardaloedd hefyd. Felly, bydd y Strategaeth yn rhoi arweiniad i'r camau gweithredu ar lefel llywodraethau, ac yn cyflwyno'r cyd-destun lefel uchel ar gyfer mentrau lleol a rhanbarthol.
- 3.3 Mae'r Strategaeth hon yn defnyddio'r un diffiniadau a ddefnyddiwyd yn yr Adolygiad o Bolisi Rhywogaethau Anffroddol (Defra, 2003)<sup>vii</sup>, a oedd yn trin a thrafod ecosystemau daearol, dŵr a morol, ac yn cydnabod y gallai rhywogaethau sy'n froddol i un rhan o'r wlad fod yn oresgynnol o'u cyflwyno y tu hwnt i'w cynefin naturiol. Defnyddir y term 'rhywogaethau anffroddol gydol y ddogfen hon, ac mae'n gyfystyr â'r term 'rhywogaethau estron' a ddefnyddir gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD). Ystyr rhywogaethau anffroddol goresgynnol (sy'n gyfystyr â 'Rhywogaethau Goresgynnol Estron'<sup>viii</sup> neu 'IAS') yn fras yw rhywogaethau sy'n cael eu cyflwyno a/neu ymledu ac sy'n bygwth amrywiaeth fiolegol neu sy'n cael rhyw effaith arall na ellir ei rhagweld.
- 3.4 Mae'r Strategaeth hon yn trafod effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol rhywogaethau anffroddol goresgynnol mewn amgylcheddau daearol, dŵr croyw a morol. Gan nad oes cysondeb o ran y seyllfaoedd goresgynnol, mae'r Strategaeth felly'n cwmpasu'r holl rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid anffroddol posibl, heblaw am organebau wedi'u haddasu'n enetig (GMO), bacteria a feirysau. Er hynny, mae effaith lawn y Strategaeth wedi'i hanelu at y rhywogaethau anffroddol hynny sy'n hysbys fel rhai goresgynnol, neu sydd wedi'u nodi fel rhai goresgynnol bosibl. Nid yw'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â materion iechyd dynol, na chlefydau planhigion ac anifeiliaid chwaith, er bod rhywfaint o gysylltiadau amlwg â meysydd a chlefydau tebyg a allai gael eu cyflwyno gan rywogaethau anffroddol. Mae Pennod 12, 'Rhannu a chyfuno gwybodaeth', yn trafod y berthynas â rhai strategaethau allweddol eraill.

## 4 Mekanwaith Rhywogaethau Anffroddol Prydain – Swyddogaethau a chyfrifoldebau

- 4.1 Un o brif argymhellion Adolygiad DEFRA o Rywogaethau Anffroddol oedd bod angen sefydlu un corff i gydgyssylltu'r gwaith. Mae hyn bellach wedi'i weithredu yn sgil creu mecanwaith rhywogaethau anffroddol Prydain sy'n cynnwys Bwrdd y Rhaglen a'i Ysgrifenyddiaeth ar y cyd â'r Panel Dadansoddi Peryglon (NNRAP), Bwrdd Adborth Rhanddeiliaid (SSB), Fforwm Rhanddeiliaid a chreu gweithgorau fel bo'r angen. Bydd cyfraniad rhanddeiliaid yn bwysig i'r strwythur cydgyssylltiedig cyffredinol hwn, trwy gyfrwng gweithgorau, y Bwrdd Adborth a'r Fforwm Rhanddeiliaid blynyddol a gaiff ei hwyluso gan yr Ysgrifenyddiaeth yn uniongyrchol ac anuniongyrchol a thrwy'r wefan. Mae Atodiad 4 yn amlinellu cylch gorchwyl ac amcanion elfennau gwahanol y fecanwaith.




Diagram cynllunio i ddangos prif elfennau Mekanwaith Rhywogaethau Anffroddol Prydain. Mae'r llinellau toredig yn dynodi bod yr elfennau hyn wrthi'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd.



## 5 Dull strategol

- 5.1 Mae'r dull hierarchaidd tri cham a fabwysiadwyd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn cyfeirio at atal, canfod/goruchwyllo a rheoli/dileu fel y tair prif ffordd o fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol (gyda'r flaenoriaeth fwyaf i atal). Mae'r rhain wedi'u cyflwyno yn yr Egwyddorion Arweiniol sy'n atodiad i benderfyniad COPVI/23 Cynhadledd y Partion<sup>ix</sup>. Cafodd y dull hwn ei fabwysiadu gan y grŵp adolygiad polisi, ac mae'r Strategaeth yn ei ddefnyddio ar y cyd â themâu perthnasol eraill.
- 5.2 Bydd angen corff cyfrifol arweiniol clir i weithredu amrywiol fesurau'r Strategaeth. Y tair Llywodraeth fydd yn bennaf gyfrifol am fwrw ymlaen â'r dasg o roi'r Strategaeth ar waith – trwy gyfrwng Bwrdd y Rhaglen. O gofio'r amrywiaeth o fesurau sydd ar gael, byddwn yn disgwyl i gyrff allweddol y llywodraeth sydd â chyfrifoldebau penodol ac arbenigedd perthnasol i gyfrannu hefyd. Byddant yn cynnwys y cyrff cadwraeth natur statudol cenedlaethol, y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Ddiogelu Amgylchedd yr Alban, y Comisiwn Coedwigaeth, arolygwyr iechedd planhigion ac eraill. Bydd angen cyflwyno llawer o'r mesurau hyn ar y cyd â'r Llywodraethau a'r cyrff dan sylw, yn ogystal â rhanddeiliaid anllywodraethol allweddol, gan gynnwys tîrfeddianwyr a grwpiau buddiant sectoraidd y bydd eu cyngor a'u cyfraniad yn anhepgor i'r holl broses.

- 6.1 Mae Egwyddorion Arweiniol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn rhoi pwyslais ar fesurau atal, ar y sail fod hyn yn well na gwella'r broblem. Bydd hyn o bosibl yn lleihau'r effeithiau andwyol a chostau mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol unwaith maent wedi cyrraedd yma. Dyma'r dull ymyrryd lleiaf niweidiol i'r amgylchedd, a chyda digon o adnoddau, gellir ei gyflwyno fwy neu lai ledled yr holl rywogaethau amrywiol yn yr hirdymor. Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i hyn felly. Fel ynys, mae gan Brydain gryn fantais dros wledydd cyfandirol o ran cyflwyno mesurau atal effeithiol ar gyfer rhywogaethau daearol a dŵr croyw, er ein bod yn fwy agored na rhai i oresgyniadau morol wrth gwrs.
- 6.2 Mae'r amrywiaeth eang o ddulliau a mesurau atal posibl yn cynnwys asesu risg/technegau dadansoddi, gwybodaeth ac ymgyrchoedd addysg gyhoeddus, a hyrwyddo safonau bioamrywiaeth uchel yn y sectorau masnach, trafnidiaeth a datblygu. Mae'n rhaid i ddulliau atal effeithiol ganolbwyntio ar leihau'r perygl o gyflwyno rhywogaethau goresgynnol drwy'r holl lwybrau a chlodwyr cyfredol, gan gynnwys cludo cynhyrchion amaethyddol, llwythi, cyfnewid nwyddau a nwyddau drwy'r post a gwasanaethau cludiant, dychwelyd cerbydau milwrol a chymorth, dyframaeth, dŵr balast llongau a phobl sy'n teithio ar fôr, awyren, ac ar dir bellach gan fod yna gysylltiad trên rhwng Prydain a gweddill Ewrop.
- 6.3 Gyda chymaint o fynd a dod rhwng pobl a masnach fyd-eang, ac felly amrywiaeth eang o lwybrau cyflwyno posibl, nid oes modd sicrhau system gwbl gadarn. Mae'n amlwg felly bod asesiad risg cadarn a sganio effeithiol yn hollbwysig er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol i fynd i'r afael â'r peryglon mwyaf difrifol.

6.4 Er mai'r prif ganolbwynt yw atal rhywogaethau anfrodorol goresgynnol rhag cael eu cyflwyno i Brydain, dylid cofio fod yr un egwyddorion a safonau ymddygiad a goruchwyllo hefyd yn bwysig i atal y broses o ledaenu rhywogaethau â chymorth y tu hwnt i'w cynefin naturiol ym Mhrydain. Mae rhai rhywogaethau brodorol mewn perygl o fod yn oresgynnol wrth gael eu trawsleoli, er enghraifft, cyflwyno rhywogaethau ar ynysoedd nad ydynt yn bodoli yno'n naturiol. Er hynny, ni fyddwn yn rhwystro cynefinoedd sy'n ehangu'n naturiol. Mae'r un ystyriaeth hefyd yn berthnasol i'r syniad o beidio â symud rhywogaethau o Brydain a allai ddod yn rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn rhywle arall.



*Gall annog teithiwr i beidio â dod a chynhyrchion diangen i'r wlad fod yn ffordd effeithlon a chost-effeithiol o atal rhywogaethau goresgynnol rhag cyrraedd y wlad.*

- 6.5 Mae'n hollbwysig fod deddfwriaeth ar gael fel sail i ba bynnag fesurau ataliol sy'n angenrheidiol. Wrth i Aelod-wladwriaethau'r UE fynd ati i weithredu strategaethau rhywogaethau goresgynnol cenedlaethol erbyn 2010, efallai bod angen ystyried mesurau i'w hintegreiddio a'u cydymffurfio â rheolau symudiadau rhydd pobl a nwyddau. Mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn gorfod dilyn Erthyglau 28 a 29 Cytuniad y CE, sy'n gwahardd cyfyngiadau mewnfario ac allfario rhwng yr Aelod-wladwriaethau. Er hynny, caniateir rhai eithriadau dan Erthygl 30 y Cytuniad; gan gynnwys cyfyngiadau sy'n digelu bywyd ac iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion, a allai fod yn berthnasol i rywogaethau anffrodorol goresgynnol penodol.
- 6.6 Tra bod Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn ceisio sicrhau nad oes rhwystrau diangen i fasnach rydd, trwy Gytundeb WTO ar Rwystrau Technegol i Fasnach a'r Cytundeb i sicrhau Iechyd (Pobl) Anifeiliaid a Phlanhigion, mae'n cydnabod hawl gwlad i atal unrhyw fasnach a all effeithio ar fywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion. Mae'n werth nodi y bydd mesurau cyfatebol yn aml yn osgoi amharu ar fuddiannau masnachol ac economaidd yn ogystal â diogelu bioamrywiaeth. Bydd yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd yn trafod materion symudiadau wrth ddatblygu Strategaeth yr UE.

## Nod

Lleihau'r perygl y gallai rhywogaethau anffrodorol goresgynnol gyrraedd Prydain ac ymsefydlu yma, a lleihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â symud rhywogaethau y tu hwnt i'w cynefin naturiol ym Mhrydain.

## Camau allweddol

Byddwn yn:

### **Cam allweddol 6.1**

codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd 'dull ataliol' wrth fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan rywogaethau anffrodorol goresgynnol;

### **Cam allweddol 6.2**

hyrwyddo cyfleoedd gwell i gael gwybodaeth am rywogaethau anffrodorol goresgynnol – yn enwedig ar gyfer y sectorau a grwpiau buddiant sy'n gysylltiedig â'r llwybrau allweddol;

### **Cam allweddol 6.3**

datblygu proses gadarn o asesu risg, i'w defnyddio ar rywogaethau, llwybrau a chynefinoedd;

### **Cam allweddol 6.4**

sicrhau bod y Panel Dadansoddi Risg yn defnyddio'r broses asesu risg i nodi'r llwybrau sydd fwyaf tebygol o gyflwyno rhywogaethau anffrodorol i Brydain, a chynnal gwaith sganio'r gorwel;

### **Cam allweddol 6.5**

defnyddio gweithgorau neu gyrff arweiniol i baratoi cynlluniau gweithredu (fel bo'r angen) ar gyfer llwybrau penodedig (Cynlluniau Gweithredu Llwybrau – PAP) i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â nhw;

**Cam allweddol 6.6**

defnyddio'r broses asesu risg i nodi'r rhywogaethau effaith fwyaf sydd fwyaf tebygol o gyrraedd ac ymsefydlu ym Mhrydain (er enghraifft, creu rhestr o'r rhai risg uchel, canolig, ac isel);

**Cam allweddol 6.7**

defnyddio gweithgorau neu gyrff arweiniol i baratoi cynlluniau gweithredu unigol (fel bo'r angen) ar gyfer rhywogaethau/grwpiau a nodwyd fel rhai risg penodol (Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Goresgynnol – ISAP), i leihau'r peryglon sy'n gysylltiedig â nhw;

**Cam allweddol 6.8**


gwneud defnydd priodol o'r pwerau deddfu cyfredol, er enghraifft, i wahardd gwerthu rhywogaethau â'r risg mwyaf, a chyflwyno neu gymeradwyo codau ymarfer neu arweiniad sy'n hyrwyddo ymddygiad cyfrifol y gellir eu hystyried mewn unrhyw achosion gorfodi; a,

**Cam allweddol 6.9**

sicrhau bod mesurau codi ymwybyddiaeth ac addysg yn cael eu cymryd er mwyn helpu i osgoi effeithiau niweidiol posibl a achosir gan rywogaethau sy'n dianc/cael eu gollwng y tu hwnt i'w cynefinoedd naturiol ym Mhrydain (yn enwedig ar ynysoedd neu rhwng dalgylchoedd afonydd).

## 7 Canfod yn gynnar, goruchwylio, monitro ac ymateb yn gyflym

- 7.1 Ni fydd mesurau a luniwyd i atal rhywogaethau anffroddorol goresgynnol rhag cael eu cyflwyno ym Mhrydain yn gwbl lwyddiannus ym mhob achos, o gofio natur y llwybrau a'r peryglon cysylltiedig. Dyma fyddai'r achos hyd yn oed pe bai adnoddau lu ar gael. Cofiwch fod llawer o'r rhywogaethau anffroddorol goresgynnol wedi'u cyflwyno ers amser maith. Felly, efallai nad yw gallu goresgynnol rhywogaethau sy'n bresennol heddiw yn gwbl amlwg eto.
- 7.2 Mae'n bwysig canfod unrhyw achosion hysbys o rywogaethau anffroddorol goresgynnol (a rhywogaethau anffroddorol na wyddom eu potensial goresgynnol hyd yma) yn gynnar, a bod peryglon posibl yn cael eu hasesu'n ddigon cyflym. Po gyflymaf yr awn ni i'r afael ag unrhyw berygl, po fwyaf lwyddiannus a'r lleiaf costus fydd hynny o safbwynt bioamrywiaeth ac adnoddau eraill. Mae'n bwysig cadw golwg ar yr amrywiaeth eang o grwpiau tacsonomig yn y manau cyrraedd, ac yn agos iddynt, er mwyn canfod unrhyw achosion newydd.
- 7.3 Mae'n bwysig goruchwylio'r rhywogaethau hysbys sy'n bresennol ac o bosibl yn oresgynnol, er mwyn asesu a yw eu statws yn newid o gwbl (lefelau poblogaeth a/neu eu cynefin).
- 7.4 Mae gan Brydain gynlluniau monitro da ar gyfer llawer o grwpiau tacsonomig, ond nid oes cofnod digonol o rywogaethau anffroddorol, ac mae'r cyfnodau rhwng monitro yn aml yn rhy hir i weld unrhyw newidiadau sylweddol yn eu statws yn ddigon cynnar. Ar ben hynny, mae'r sylw yn aml yn anghyflawn a'r data presennol ar wasgar ymhlith y gwahanol asiantaethau, sefydliadau, cyrff anllywodraethol, prifysgolion ac unigolion. Mae cydgysylltu'r mecanweithiau casglu data a chadw data yn flaenoriaeth uchel. Bydd angen cyflwyno adroddiadau rheolaidd i hysbysu'r llunwyr polisïau a'r rhai sy'n cyflwyno rhaglenni gweithredu, yn ogystal â rhoi adborth i rai sy'n cyflwyno data.



Mae'n bwysig cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddisbarthiad rhywogaethau anffroddorol, er mwyn gwneud penderfyniadau polisi.



# Canfod yn gynnar, goruchwyllo, monitro ac ymateb yn gyflym

- 7.5 Mae angen digon o adnoddau a gallu gweithredol i ymdrin â'r rhywogaethau anfrodorol yn fuan ar ôl iddynt gael eu canfod, ac ar ôl nodi'r perygl posibl a gyflwynir ganddynt. Mae angen cyfrwng cyfathrebu a phenderfynu clir, yn ogystal â mecanweithiau blaenoriaethu. Felly, mae angen i'r asiantaethau monitro, y cyrff anllywodraethol amrywiol, aseswyr risg a rheolwyr, a'r rhai sy'n ymrwymo i roi adnoddau, ryngweithio'n agos i sicrhau bod unrhyw benderfyniad i weithredu yn gymesur â'r lefelau peryglon a nodwyd, ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.
- 7.6 Dylem ddefnyddio dull rhagofalus<sup>x</sup> y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel arweiniad. Os yw asesiad risg yn dangos bod rhywogaethau anfrodorol yn cynrychioli neu'n debygol o gynrychioli perygl ecolegol, cymdeithasol neu economaidd, yna dylid cymryd camau i'w ddileu neu ei atal rhag ymsefydlu neu ledu ymhellach.
- 7.7 Mae angen ystyried y blaenoriaethau gwahanol ar lefelau gwahanol hefyd. Nod y Strategaeth hon yw cyflwyno fframwaith gweithredu lefel uchel, a chynnig cyd-destun gwell i fentrau unigol sy'n gweithredu'n lleol trwy nodi blaenoriaethau Prydain gyfan. Efallai y byddai'r rhain yn cyd-daro â'r blaenoriaethau lleol i ryw raddau, ond os oes rhywogaethau anfrodorol goresgynnol wedi'u canfod a bod modd mynd i'r afael â nhw'n gyflym ac yn effeithiol yn lleol, yna fe anogir hynny'n gryf. Os nad oes digon o gamau gweithredu/adnoddau i wneud hynny'n lleol fodd bynnag, yna bydd mesurau'r Strategaeth hon yn cyflwyno'r cyd-destun er mwyn penderfynu a ddylai Bwrdd y Rhaglen ddechrau camau gweithredu.

## Nod

Datblygu mecanweithiau effeithiol ar gyfer canfod, goruchwyllo, monitro ac ymateb i unrhyw beryglon goresgynnol gan rywogaethau anfrodorol newydd a rhai sydd wedi ymsefydlu.

## Camau allweddol

Byddwn yn:

### Cam allweddol 7.1

datblygu 'system rhybuddio cynnar' ar gyfer planhigion ac anifeiliaid, tebyg i'r system rhybudd sy'n cael ei defnyddio gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewropeaidd a Môr y Canoldir (EPPO) ar gyfer peryglon i iechyd planhigion;

### Cam allweddol 7.2

nodi'r rhywogaethau anfrodorol goresgynnol hysbys a phosibl sydd â'r flaenoriaeth uchaf, a ddylai gael eu monitro'n fanylach;

### Cam allweddol 7.3

manteisio i'r eithaf ar y ffynonellau gwybodaeth cyfredol sydd ar gael a datblygu cynlluniau goruchwyllo/monitro addas dros amser ar gyfer rhywogaethau anfrodorol goresgynnol hysbys a phosibl;

### Cam allweddol 7.4

gweithio'n agos gyda'r cyrff cadwraeth perthnasol neu gyrff tacson penodol i ddatblygu gwaith canfod, goruchwyllo a monitro i'r eithaf;

# Canfod yn gynnar, goruchwyllo, monitro ac ymateb yn gyflym

## **Cam allweddol 7.5**

datblygu a chytuno ar brotocolau i oruchwyllo a monitro rhywogaethau a nodwyd fel rhai goresgynnol o bosibl;

## **Cam allweddol 7.6**

sefydlu storfa ganolog i gadw data am ddsbarthiad rhywogaethau anfrodorol;

## **Cam allweddol 7.7**

sefydlu mecanwaith cynhwysfawr er mwyn cofnodi'r ymyriadau ar lwybrau cyflwyno sylweddol; gan gynnwys datblygu protocolau ar gyfer casglu data o blith amrywiaeth o 'gyrff ymyrryd';

## **Cam allweddol 7.8**

sefydlu (a hyrwyddo) dull o gasglu gwybodaeth am rywogaethau anfrodorol o unrhyw ffynhonnell, er enghraifft, trwy sicrhau bod modd cyflwyno gwybodaeth gan amgueddfeydd, labordai'r llywodraeth, swyddogion rheoli plâu awdurdodau lleol, prifysgolion ac aelodau'r cyhoedd i'r storfa data;

## **Cam allweddol 7.9**

ystyried yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sicrhau bod arbenigedd tacsonomig ar gael yn ehangach;

## **Cam allweddol 7.10**

nodi'r dulliau priodol o sicrhau bod digon o adnoddau a gallu ar gael i ymateb yn gyflym i argyfyngau;

## **Cam allweddol 7.11**

pennu ffordd glir o nodi pa asiantaethau arweiniol penodol sy'n gyfrifol am ymateb yn gyflym i wahanol dacson ac mewn amgylchiadau gwahanol; a,

## **Cam allweddol 7.12**

datblygu cynllun wrth gefn cyffredinol gan gynnwys mecanweithiau asesu risg ar gyfer llif gwybodaeth a phrotocol ar gyfer cymeradwyo camau gweithredu brys yn gynnar.

## 8 Lliniaru, rheoli a dileu

- 8.1 Mae llawer o rywogaethau anfrodorol wedi ymsefydlu ym Mhrydain, gyda llawer ohonynt yn cael effaith fanteisiol neu ychydig iawn o effaith negyddol. Mae sawl dewis ar gael ar gyfer yr ychydig rywogaethau hynny sy'n cael effaith negyddol iawn. Mae modd lliniaru'r effeithiau negyddol (er enghraifft, cyflwyno lloches neu noddfa i rywogaethau sydd dan fgythiad), rheoli'r rhywogaethau neu geisio eu dileu. Gallwn gymryd camau amrywiol i'w rheoli, gan gynnwys cyfyngu rhywogaethau i ardal benodol, atal (neu arafu) eu lledaeniad, a lleihau neu ddileu'r boblogaeth leol mewn ardaloedd penodol.
- 8.2 Unwaith y mae'r rhywogaethau goresgynnol wedi ymsefydlu'n eang, dim ond mewn achosion prin y mae dileu yn bosibl neu'n gost-ffeithiol. Cyfeiriodd adroddiad Millennium Ecosystem Assessment Report<sup>ii</sup> at y ffactorau mwyaf cyffredin mewn achosion o ddileu llwyddiannus, fel nodweddion biolegol arbennig y rhywogaethau targed (er enghraifft, gallu gwasgaru gwael), canfod/ymateb yn ddigon cynnar, cyfrannu digon o adnoddau ariannol am gyfnod penodol, a digon o gefnogaeth gan y cyhoedd a'r asiantaethau perthnasol. Mae cyfyngiant daearyddol, er enghraifft, ar ynysoedd alltraeth, hefyd yn fanteisiol fel y ffordd fwyaf realistig o gael gwared ar rywogaethau'n llwyr. Cofiwch – dylai unrhyw gamau fod yn gost-ffeithiol ac yn gymesur i lefel y bygythiad, a'u bod yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar rywogaethau brodorol.
- 8.3 Dylem ddilyn yr egwyddor ganlynol. Os oes tystiolaeth i awgrymu bod rhywogaethau anfrodorol yn cael neu'n debygol o gael effaith negyddol sylweddol yn ecolegol, cymdeithasol neu economaidd, yna dylid dechrau defnyddio mesurau dileu neu reoli cyn belled â'u bod yn bosibl yn dechnegol ac ariannol, nad ydynt yn greulon, a'u bod yn ddiogel i bobl a'r bywyd gwyllt lleol.
- 8.4 Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn gwneud llawer o waith lliniaru a rheoli ym Mhrydain ar hyn o bryd. Mae'n amrywio o gymryd camau lleol iawn (er enghraifft, mewn gwarchodfeydd natur neu ar diroedd mwyniant cyhoeddus), gweithio ar lefel dalgylch neu ynys, i weithio ar lefel genedlaethol a rhyngwladol hyd yn oed. Mae rhai o'r camau a gymerwyd i reoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ar raddfa fawr ym Mhrydain wedi'u hariannu'n rhannol gan Raglen 'LIFE-Nature' yr UE. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys rhaglenni 'ruddy duck' a dileu mincod, yn ogystal â sawl prosiect i reoli *Rhododendron ponticum*.



*Prosiect 'Ruddy Duck', a noddir gan DEFRA a rhaglen LIFE yr UE yw un o'r prosiectau dileu mwyaf o'i fath yn Ewrop.*

## Lliniaru, rheoli a dileu

- 8.5 Mae dulliau rheoli hefyd yn cynnwys rheolwyr tir neu dirfeddianwyr unigol yn diogelu eu buddiannau preifat, heb beri niwsans i dirfeddianwyr cyfagos. Er bod camau lliniaru a rheoli fel arfer yn canolbwyntio ar safloedd penodol, mae'n bwysig rhannu arferion gorau a'u defnyddio fel adnodd gwerthfawr, a bod y dulliau rheoli yn seiliedig ar dystiolaeth gref (gweler y bennod Ymchwil isod). Tra dylai Llywodraethau ac asiantaethau ganolbwyntio'n benodol ar fesurau atal, camau ymyrryd cynnar a rhaglenni ar raddfa fawr neu raglenni cenedlaethol; mae hefyd yn bwysig grymuso a helpu rheolwyr a thirfeddianwyr i leihau'r effeithiau ar eu tiroedd trwy roi cyngor a gwybodaeth ymarferol iddynt. Hefyd, dylai Mekanwaith Rhywogaethau Anffrodorol Prydain annog a chefnogi'r dasg o sefydlu fforymau a rhaglenni gwaith lleol neu ranbarthol, fel 'Tweed Forum' a'r 'Cornwall Knotweed Forum'. Mae nifer o fforymau eraill wrthi'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd, er mwyn ceisio canfod y ffordd orau o gydgyssylltu'r gwaith rheoli. Bydd angen datblygu'r berthynas hon ymhellach dros amser.
- 8.6 Yn gyffredinol, mae pawb yn cytuno bod angen cyflwyno'r blaenoriaethau ar gyfer cymryd camau lliniaru a rheoli ar lefel Prydain. Ar ôl pennu'r rhain, gellir eu hadlewyrchu mewn strategaethau, cynlluniau a mentrau lleol, oni bai eu bod eisoes yn rhan o raglen gydgyssylltiedig wrth gwrs.
- 8.7 Ar ôl datblygu a gweithredu Strategaeth ar gyfer Prydain, y cam nesaf fydd gwneud y gorau o'r gallu a'r arbenigedd sydd eisoes ar gael, a chau cymaint o fylchau â phosibl trwy gydgyssylltu gweithgareddau rheoli cyfredol yn well.

### Nod

Lleihau a rheoli effeithiau negyddol rhywogaethau anffrodorol goresgynnol mewn modd cost-effeithiol.

## Camau allweddol

Byddwn yn:

### Cam allweddol 8.1

cytuno ar gyfres o egwyddorion arweiniol gyda'r Panel Dadansoddi Risg a rhanddeiliaid allweddol, er mwyn asesu a nodi pa gam neu gamau sy'n ymarferol o ran cyfyngu, rheoli neu ddileu;

### Cam allweddol 8.2

defnyddio'r dadansoddiadau risg i nodi'r rhywogaethau goresgynnol a'r cynefinoedd a effeithir ddylai gael blaenoriaeth o ran camau lliniaru a rheoli ar lefel Prydain a/neu genedlaethol, gan gynnwys ystyried pa mor ymarferol yw rhaglenni dileu;

### Cam allweddol 8.3

dynodi cyrff arweiniol neu weithgorau i baratoi cynlluniau rheoli drafft ar gyfer rhywogaethau goresgynnol a chynefinoedd a effeithir sy'n blaenoriaeth, gan ystyried y cyfle i integreiddio gydag unrhyw Gynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Goresgynnol perthnasol (ISAP) sy'n bodoli eisoes er mwyn atal rhywogaethau rhag cael eu cyflwyno;

### Cam allweddol 8.4

datblygu a chyfrannu adnoddau at raglenni gweithredu allweddol ar lefel Prydain, sy'n gost-effeithiol, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac sy'n gymesur i'r lefel bygythiad;

### **Cam allweddol 8.5**

sefydlu mecanweithiau fel bod mentrau unigol yn cyfrannu at raglenni gweithredu cydlynol ar gyfer y blaenoriaethau lefel uchaf;

### **Cam allweddol 8.6**

cydnabod y blaenoriaethau ar lefelau gwahanol (Prydain, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol), ac annog partneriaethau effeithiol;

### **Cam allweddol 8.7**

dwyn ynghyd cronfa ddata o brosiectau er mwyn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn well a gwneud y defnydd gorau o drefniadau gweithio mewn partneriaeth ac achosion eraill o gyfuno adnoddau; a,

### **Cam allweddol 8.8**

chwilio am ffyrdd eraill o gefnogi unigolion i fynd i'r afael â problemau sy'n cael eu hachosi gan rywogaethau anfrodorol goresgynnol.



## 9 Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

9.1 Ac eithrio'r rhanddeiliaid allweddol, nid yw'r cyhoedd a llawer o sefydliadau eraill arall gan gynnwys canghennau amrywiol y llywodraeth, yn deall rhyw lawer am beryglon a bygythiadau rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r materion sy'n ymwneud â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn allweddol er mwyn cael cefnogaeth ehangach i raglenni a pholisïau perthnasol, ac er mwyn cynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Gall y cyhoedd wneud sawl peth, gan gynnwys newid eu hymddygiad er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol neu'r risg o'u helpu i ymledu, a chynorthwyo i ganfod a monitro'r rhywogaethau hyn.

9.2 Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol, mae angen ystyried y gynulleidfa darged (fel y cyhoedd yn gyffredinol a chynulleidfaoedd mwy hyddysg fel cofnodwyr biolegol neu arbenigwyr garddwriaeth). Mae gwahaniaethau mawr o ran dealltwriaeth ac ymateb y cynulleidfaoedd amrywiol hyn i'r pynciau dan sylw, a bydd ffyrdd gwahanol o gysylltu â nhw. Mae angen ystyried defnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol, gan gynnwys trwy gyfrwng cyrff cynrychioliadol, gwefannau, y cyfryngau torfol, posteri mewn mannau cyrraedd, taflenni gwybodaeth, codau ymarfer, canllawiau adnabod, sgysïau cyhoeddus a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.



*Mae taflenni lliwgar fel y rhain yn ffordd gyffredin o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r peryglon sy'n gysylltiedig â rhywogaethau anfrodorol.*

9.3 Mae'n bwysig monitro agwedd y cyhoedd fel bod unrhyw gamau sy'n codi ymwybyddiaeth ac sy'n annog pobl i gymryd rhan, yn cael yr effaith angenrheidiol. Bydd hyn yn fodd o fesur effeithlonrwydd y mesurau a ddefnyddiwyd a'u gwerth am arian. Mae casglu gwybodaeth sylfaenol am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o faterion rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ar hyn o bryd yn gam pwysig cyntaf ar gyfer cymharu agwedd a chasgliad pobl yn y dyfodol.

### Nod

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynulleidfaoedd targed allweddol eraill o faterion rhywogaethau anfrodorol goresgynnol:

- fel bod llawer mwy yn gwerthfawrogi'r peryglon y gallai rhywogaethau anfrodorol eu hachosi i'n bywyd gwyllt a'n hamgylchedd brodorol;
- fel bod gwell dealltwriaeth o'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, ac ennyn cefnogaeth y cyhoedd i'r broses o wneud penderfyniadau;
- er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd helpu i ganfod a monitro rhywogaethau anfrodorol goresgynnol; ac,
- annog pawb i ymddwyn yn fwy cyfrifol a dilyn y mesurau rheoleiddio a bioamrywiaeth sy'n effeithio ar rai sy'n gysylltiedig â symud, cadw, defnyddio a rhyddhau unrhyw rywogaethau anfrodorol.

## Camau allweddol

Byddwn yn:

### **Cam allweddol 9.1**

cymryd camau i asesu agwedd y cyhoedd a chasglu gwybodaeth sylfaenol am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o faterion rhywogaethau anfrodorol goresgynnol;

### **Cam allweddol 9.2**

nodi swyddogaeth y cyhoedd a sut gallant helpu i ganfod, goruchwylio a monitro;

### **Cam allweddol 9.3**

nodi'r grwpiau cynulleidfaoedd allweddol a'r blaenoriaethau gweithredu er mwyn codi eu hymwybyddiaeth, dealltwriaeth a'u cael i gyfrannu mwy;

### **Cam allweddol 9.4**

sefydlu gweithgor i ddatblygu strategaeth gyfathrebu a chysylltiadau'r cyfryngau a ddylai ystyried:

9.4a

paratoi a dosbarthu posteri gwybodaeth, canllawiau adnabod a deunyddiau cyffredinol eraill ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol a materion cysylltiedig;

9.4b

paratoi bwletinâu rheolaidd fel bod rhanddeiliaid allweddol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran mynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol;

9.4c

sut i weithio'n well mewn partneriaeth i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd pwysig;

9.4d

cysylltiadau a phartneriaethau â dulliau cyfathrebu yn ymwneud â llwybrau iechyd pobl a theithio, iechyd bywyd gwyllt, masnach, trafnidiaeth ac ati;

9.4e

amseru a thargeddu cyfathrebiadau, ymgyrchoedd thematig a mesurau addas eraill;

9.4f

rhaglenni addysgol mewn ysgolion a cholegau;


9.4g

cysylltiadau ag agweddau eraill fel Rheoliad Masnach Bywyd Gwyllt yr UE<sup>xi</sup>, y Confensiwn ar Fasnachu Rhywogaethau sydd mewn Perygl a mentrau sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt;

# Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

## Cam allweddol 9.5

sefydlu a chynnal gwefan yr Ysgrifenyddiaeth ar faterion rhywogaethau anffrodorol goresgynnol gyda dolenni cyswllt i asiantaethau, cyrff anlywodraethol ac eraill sy'n gweithio yn yr un maes. Bydd y wefan yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am gamau gweithredu a datblygiadau llywodraeth, a rhaglenni a mentrau eraill sy'n cael eu cynnal ledled Prydain;



Tudalen flaen gwefan yr ysgrifenyddiaeth ar faterion rhywogaethau anffrodorol goresgynnol – prif gyfrwng gwybodaeth ar gyfer Mecanwaith Rhywogaethau Anffrodorol Goresgynnol Prydain.

## Cam allweddol 9.6

paratoi, dosbarthu a gweithredu Codau Ymarfer ar gyfer y prif lwybrau<sup>xii</sup> a'r rhywogaethau a nodwyd yn y broses asesu risg, a cheisio monitro pa mor effeithiol ydynt.

## 10 Fframwaith deddfwriaethol

10.1 Mae'r darpariaethau deddfu cyfredol sy'n ymdrin â rhywogaethau anffordrol ym Mhrydain yn deillio o nifer fawr o Ddeddfau gwahanol a luniwyd ar wahân er mwyn mynd i'r afael â phroblemau penodol. Mae deddfwriaethau mwyaf cynhwysfawr Prydain yn ymwneud â'r meysydd effaith economaidd sylweddol fel iechyd planhigion ac anifeiliaid a physgodfeydd. Cafodd y ddeddfwriaeth ar rywogaethau anffordrol ym Mhrydain ei hadolygu'n sylweddol yn 2001 (Fasham a Trumper, 2001<sup>xiii</sup>) ac mae crynodeb ohoni yn yr Adolygiad o Bolisi Rhywogaethau Anffordrol (Defra, 2003<sup>iii</sup>). Ar ben hynny, mae deddfwriaeth cadwraeth natur wedi'i datganoli, ac felly mae'n hollbwysig cydweithio i ddyfeisio fframwaith cadarn ledled gwledydd Prydain.

10.2 Roedd Deddf Gwarchod Natur (Yr Alban) 2004 a Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn cyflwyno rhai mesurau defnyddiol a phenodol iawn, ond mae angen cydlynu'r pwerau cyfredol yn well a chreu rhagor o welliannau hefyd. Nid yw'r trefniadau presennol lle mae llawer iawn o bwerau ar gael at ddibenion penodol iawn bellach yn addas wrth fabwysiadu dull mwy cynhwysfawr a chydgyssylltedig i fynd i'r afael â materion rhywogaethau anffordrol goresgynnol. Er enghraifft, efallai bod cyfle i ehangu cylch gorchwyl y Gwasanaethau Iechyd Planhigion i weithio y tu allan i'r materion a'r peryglon traddodiadol i amaethyddiaeth a garddwriaeth yn sgil plâu a chlefydau planhigion. Byddai hyn yn elwa ar y seilwaith cyfredol a'r rhwydwaith cenedlaethol.



*Mae modd defnyddio'r ddeddfwriaeth gyfredol i wahardd gwerthu rhywogaethau hynod oresgynnol fel ceiniog y gors.*

10.3 Ffactor arall i'w ystyried yw'r posibilrwydd y gallai Strategaeth yr UE a ddatblygir gan y Comisiwn Ewropeaidd gynnwys cynigion ar gyfer creu deddfwriaeth Ewropeaidd ar fater rhywogaethau goresgynnol estron, a all gael ei throsglwyddo i ddeddfwriaethau domestig wedyn.

### Nod

Sicrhau bod fframwaith deddfwriaethol Prydain ar gyfer mynd i'r afael â materion rhywogaethau anffordrol goresgynnol yn gydlynol, cynhwysfawr, ateb y diben a 'chymesur'.

## Camau gweithredu

Byddwn yn:

### **Cam gweithredu 10.1**

adeiladu ar y gwaith ymchwil a wnaed hyd yma ar y ddeddfwriaeth gyfredol a datblygu pecyn o gynigion deddfwriaethol wedi'i gynllunio i ddarparu fframwaith fwy cydlynol a chynhwysfawr i fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Bydd hyn yn cynnwys:

- nodi'r materion sydd angen mynd i'r afael â nhw ar fyrder, a'r anghysondebau deddfwriaethol sydd angen eu hunioni fwyaf;
- ceisio unioni'r materion deddfwriaethol mwyaf brys wrth i gyfleoedd addas godi;

### **Cam gweithredu 10.2**

gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r pwerau cyfredol trwy sicrhau bod y cyrff sydd â'r pwerau perthnasol yn cysylltu a chydgyssylltu'n well â'i gilydd;

### **Cam gweithredu 10.3**

cyfrannu at ddatblygu unrhyw fentrau'r UE i wella'r ddeddfwriaeth a'r rheolau sy'n ymwneud â pheryglon rhywogaethau anfrodorol goresgynnol; ac,

### **Cam gweithredu 10.4**

annog ymwybyddiaeth gref o faterion rhywogaethau anfrodorol goresgynnol wrth gyfathrebu rhwng yr Aelod-wladwriaethau a chyfarwyddiaethau polisi gwahanol yn y Comisiwn Ewropeaidd.



## 11 Ymchwil

- 11.1 Mae bioleg oresgynnol yn bwnc sy'n ennyn diddordeb cynyddol y gymuned wyddonol ar hyn o bryd. Hefyd, mae llawer iawn o waith ymchwil wedi'i wneud i rywogaethau anfredol Prydain: gan brifysgolion, sefydliadau ymchwil, asiantaethau'r llywodraeth ac eraill. Mae pob math o ffynonellau ariannol ar gael, a'r pynciau ymchwil yn amrywio o rai tra gymhwysol i waith ymchwil sylfaenol ar fioleg oresgynnol. Mae rhywfaint o'r gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar y DU, tra bod llawer o fentrau eraill yn ymchwilio ar lefel yr UE neu'n fyd-eang; er enghraifft prosiectau [DAISIE](#)<sup>xiv</sup> ac [ALARM](#)<sup>xv</sup>.
- 11.2 Mae ymchwil yn faes allweddol o ran rhywogaethau anfredorol goresgynnol. Mae'n hollbwysig ein bod yn seilio ein polisiau ar dystiolaeth gref, a bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil yn aml yn elfen allweddol er mwyn helpu i asesu risg a llunio strategaethau goruchwyllo, canfod, monitro, rheoli a dileu. Mae ymchwil gymhwysol yn arbennig o bwysig er mwyn helpu i lywio a mireinio dulliau rheoli, ac er mwyn asesu pa mor ymarferol yw'r camau arfaethedig (er enghraifft, ceisio dileu'r broblem). Mae astudiaethau dichonoldeb, sy'n aml yn cynnwys modelu, yn ffordd allweddol o asesu costau tebygol a llwyddiant posibl unrhyw ymdrechion rheoli neu ddileu ar raddfa fawr.
- 11.3 Mae gwaith ymchwil hefyd yn gallu rhoi atebion rheoli technolegol neu fiolegol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau a oedd yn ymddangos fel rhai anodd eu trin.
- 11.4 Bu'r grŵp adolygu polisi rhywogaethau anfredorol yn ystyried y blaenoriaethau ymchwil, a pharatowyd rhestr o'r anghenion ymchwil gan yr Is-grŵp Monitro ac Asesu Risg (Defra, 2003<sup>iii</sup>). Yn fwy diweddar, mae is-grŵp anfredorol Grŵp Cyngori ar Ymchwil Bioamrywiaeth y DU (UK BRAG) wedi rhoi ystyriaeth strategol i gyfres o [flaenoriaethau ymchwil ar gyfer rhywogaethau anfredorol y DU](#)<sup>xvi</sup>. Mae angen cydgysylltiad strategol gwell o'r holl ymdrechion ymchwil sy'n cynnwys yr holl noddwyr allweddol, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, cyrff cadwraeth natur statudol a'r Cyngorau Ymchwil perthnasol hefyd.



*Mae gwaith ymchwil, fel ymchwil genetig i glychau'r gog Prydeinig, yn hollbwysig er mwyn llywio polisiau ac arferion rhywogaethau anfredorol.*

### Nod

Annog datblygu ffrwd ymchwil fwy strategol a chydlynol fel sail i bolisi a chamau gweithredu ar rywogaethau anfredorol goresgynnol Prydain.



## Camau allweddol

Byddwn yn:

### **Cam allweddol 11.1**

defnyddio'r ymchwil wyddonol orau bosibl fel sail i brosesau asesu risg, atal, canfod, goruchwyllo, monitro a rheoli.

### **Cam allweddol 11.2**

sicrhau arian ar gyfer y blaenoriaethau ymchwil a nodwyd yn adolygiad DEFRA ac UK BRAG;

### **Cam allweddol 11.3**

annog mwy o brosiectau ymchwil ar y cyd a chyfle i weld canlyniadau; a

### **Cam allweddol 11.4**

monitro'r datblygiadau ymchwil yn genedlaethol a rhyngwladol er mwyn canfod y datblygiadau technolegol neu fiolegol a sicrhau bod ymchwil Prydain i rywogaethau anffrodorol yn arloesol, ac osgoi ailadrodd unrhyw waith ymchwil arall.

## 12 Cyfnewid a chyfuno gwybodaeth

- 12.1 Mae llawer iawn o waith yn cael ei gynnal ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol ledled sectorau amrywiol ym Mhrydain, ac mae cyfnewid gwybodaeth effeithiol yn gryn her. Mae'n angenrheidiol rhannu arferion gorau ymhlith ymarferyddion fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac fel bod gwersi a ddysgwyd mewn un maes neu amgylchiad yn fanteisiol yn rhywle arall. Hefyd, bydd hi'n bwysig sicrhau bod y gwaith ymchwil a ddisgrifiwyd ym Mhennod 11 yn cael ei ledaenu'n helaeth. Dylid meithrin a chryfhau cysylltiadau rhwng y Strategaeth hon a strategaethau eraill sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Planhigion a'r maes goruchwylio clefydau bywyd gwyllt, yn ogystal ag unrhyw fentrau ar fewnforion anghyfreithlon ac iechyd dynol.
- 12.2 O safbwynt rhyngwladol, mae'r Strategaeth hon yn ystyried y Strategaeth Ewropeaidd ar Rywogaethau Goresgynnol Estron (Genovesi a Shine, 2003<sup>iv</sup>). Mae'r DU, trwy gysylltiadau a chynrychiolaethau priodol, yn rhan o Grŵp Arbenigwyr perthnasol Confensiwn Bern, yn cynnal trafodaethau ar Strategaeth yr UE gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, yn datblygu dangosyddion bioamrywiaeth rhyngwladol, yn ystyried materion rhywogaethau goresgynnol estron y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ac yn gweithio gyda phanel rhywogaethau goresgynnol estron Sefydliad Diogelu Planhigion Ewropeaidd a Môr y Canoldir (EPPO). Mae Ysgrifenyddiaeth Prydain mewn cysylltiad agos â menter rhywogaethau anffrodorol Iwerddon hefyd.
- 12.3 Mae'n bwysig cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion tramor gorau, er mwyn cynnal y mecanweithiau gorau i fynd i'r afael â rhywogaethau anffrodorol goresgynnol ym Mhrydain. Gan fod hon yn broblem ryngwladol, mae'n bwysig meithrin cysylltiadau â rhwydweithiau a mentrau byd-eang fel y Rhaglen Rhywogaethau Goresgynnol Byd-eang (GISP) a Grŵp Arbenigol Undeb Cadwraeth y Byd ar Rywogaethau Goresgynnol. Gellir defnyddio arferion gorau'r DU er mwyn helpu mentrau rhywogaethau anffrodorol goresgynnol mewn gwledydd tramor hefyd, fel cyfrannu at darged 10 y Strategaeth Fyd-eang ar Gadwraeth Planhigion (mae cynlluniau rheoli ar waith ar gyfer o leiaf 100 o'r rhywogaethau estron amlycaf sy'n peryglu planhigion, cymunedau planhigion a chynefinoedd ac ecosystemau cysylltiedig).
- 12.4 Bydd y Strategaeth hon yn meithrin cysylltiadau â nifer o strategaethau eraill sydd ar waith neu ar y gweill, ac mae rhai ohonynt wedi'u hamlinellu yn Atodiad 5.

### Nod

Sichrau bod mecanwaith rhywogaethau anffrodorol Prydain yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf o ran rhywogaethau anffrodorol goresgynnol ym Mhrydain, ac yn cysylltu â'r datblygiadau rhyngwladol.

# Cyfnewid a chyfuno gwybodaeth

## Camau allweddol

Byddwn yn:

### **Cam allweddol 12.1**

meithrin cysylltiadau gyda mentrau a strategaethau perthnasol eraill y Llywodraeth ym Mhrydain trwy gynrychiolaeth polisi;

### **Cam allweddol 12.2**

ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gyda mentrau rhywogaethau anffrodorol goresgynnol lwerddon gyfan;

### **Cam allweddol 12.3**

sicrhau bod Tiriogaethau Tramor y DU a Dibyniaethau'r Goron yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddaraf Prydain;

### **Cam allweddol 12.4**

meithrin cysylltiadau â chydweithwyr sy'n gysylltiedig â materion polisi rhywogaethau anffrodorol goresgynnol yr Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd, a'u hannog i gynrychioli safbwyntiau a phryderon Prydain/y DU yn gyson;

### **Cam allweddol 12.5**

ymgysylltu â'r mentrau byd-eang/rhyngwladol ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol; a

### **Cam allweddol 12.6**

defnyddio gwaith mecanwaith rhywogaethau anffrodorol goresgynnol Prydain o sicrhau dull strategol a chydlynol, i helpu fforymau lleol neu ranbarthol sy'n ceisio lledaenu arferion gorau a hyrwyddo camau gweithredu ar rywogaethau anffrodorol goresgynnol wedi'u seilio ar dystiolaeth.

## 13 Gweithredu ac adolygu

- 13.1 O gofio'r holl gamau gweithredu gwahanol a'r amrywiaeth tymhorol a gofodol sy'n gysylltiedig â'r gwahanol flaenoriaethau ledled gwledydd Prydain, bydd angen cyflwyno rhai elfennau o'r Strategaeth Fframwaith hon ar lefel Prydain – er enghraifft, dadansoddi risg a sganio'r gorwel – a chymau eraill sy'n fwy addas i'w cymryd gan y gwledydd unigol, fel ymgyrchoedd addysg penodol a mentrau wedi'u targedu. Bydd Bwrdd Rhaglen Prydain yn gyfrifol am gynnal trosolwg strategol a hyrwyddo mentrau ar lefel Prydain gyfan.
- 13.2 Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn helpu i roi'r Strategaeth ar waith, ac yn gofalu bod gwefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain yn nodi'r datblygiadau diweddaraf.
- 13.3 Mae hefyd yn bwysig adolygu llwyddiant a chymau gweithredu'r Strategaeth hon yn achlysurol, er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol a bod y mesurau sydd ynddi'n ddigon hyblyg i addasu neu ymateb i amgylchiadau newydd. Bydd Bwrdd y Rhaglen yn gwerthuso'r Strategaeth bob pum mlynedd.

# Atodiad 1 – Ymrwymïadau Rhyngwladol Ynghylch Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i sawl cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r peryglon a achosir gan rywogaethau anfrodorol goresgynol. Maent yn cynnwys:

1. Confensiwn Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Confensiwn Bern<sup>xvii</sup>):
  - i sicrhau bod y rhywogaethau anfrodorol sy'n cael eu cyflwyno yn cael eu rheoli'n llym;
  - mae Strategaeth Ewropeaidd ar Rywogaethau Goresgynol Estron (Genovesi a Shine, 2003)<sup>iv</sup> y Confensiwn wedi llywio'r broses o ddatblygu Strategaeth Prydain.
2. Y Confesiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD)<sup>xviii</sup>:
  - dan Erthygl 8h, mae Cytundebwr yn ymroi i atal cyflwyno, rheoli neu ddileu'r rhywogaethau estron hynny sy'n peryglu ecosystemau, cynefinoedd neu rywogaethau;
  - mae sawl Penderfyniad sy'n cyfeirio at rywogaethau goresgynol estron wedi'u mabwysïadu dan y Confensiwn:
    - Penderfyniad V/8<sup>xix</sup> ar faterion sy'n cynnwys datblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu cenedlaethol; mecanweithiau ar gyfer cydweithredu trawsffiniol; defnyddio'r dull ecosystem a'r dulliau rhagofalon a bioddaearyddol, a datblygu addysg, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gyhoeddus;
    - Penderfyniad VI/23<sup>xx</sup> ar faterion sy'n cynnwys annog partïon i gadarnhau'r Confensiwn Rhyngwladol Diogelu Planhigion; annog y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol i gwblhau'r gwaith o baratoi offeryn rhyngwladol i fynd i'r afael â chyflwyno organebau dyfrol niweidiol mewn dŵr balast a datblygu mecanweithiau i leihau effeithiau cyrff llongau budr fel llwybrau goresgyn; ailddatgan pwysigrwydd strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol; creu mecanweithiau i gydgyssylltu rhaglenni cenedlaethol; hwyluso cyfraniad rhanddeiliaid; datblygu gallu asesu/dadansoddi risg, ac yn bwysicach, mabwysïadu'r Egwyddorion Arweiniol;
    - Penderfyniad VII/13<sup>xxi</sup> ar faterion sy'n cynnwys cydweithio â'r Confensiwn ar Fasnach Rhyngwladol Rhywogaethau sydd mewn Perygl (CITES); datblygu cynlluniau gwaith ar y cyd â'r Confensiwn Rhyngwladol Diogelu Planhigion; meithrin cysylltiadau agosach gyda Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd (OIE) a chefnogi'r broses benderfyniadau ac ymateb cyflym trwy ddatblygu gallu dadansoddi risg – gan nodi'r potensial ar gyfer cyflwyno'r dulliau asesu risg cyfredol yn ehangach;
    - Penderfyniad VIII/27<sup>xxii</sup> ar faterion sy'n cynnwys meithrin gallu ar gyfer datblygu camau gweithredu cenedlaethol ar lwybrau cyflwyno; annog mwy o gydweithio rhwng asiantaethau ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol ar faterion cyflwyno a rheoli, er enghraifft trwy bwyllgorau cydgysylltu cenedlaethol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae'r Penderfyniad hefyd yn cynnwys adrannau ar nifer o feysydd penodol gan gynnwys dyframaeth / môr-amaeth, dŵr balast, biofaeddu/cyrff llongau sy'n baeddu, awyrennau sifil, twristiaeth a throsglwyddo dŵr rhyngfasn.

## Ymrwymïadau Rhyngwladol Ynghylch Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol

3. Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol<sup>xxiii</sup> yn enwedig fel cynefin adar dŵr:

- dan Erthygl 3, mae pob Cytundebwr yn ymroi i lunio a gweithredu cynllun i hyrwyddo a diogelu'r gwlyptiroedd sydd wedi'u dynodi gan y Confensiwn, a gwneud defnydd doeth o'r gwlyptiroedd yn eu tiriogaethau cyhyd ag sy'n bosibl;
- Penderfyniad VII/14<sup>xxiv</sup> sy'n ymwneud â rhywogaethau goresgynnol a gwlyptiroedd, ac sy'n galw am restr o rywogaethau goresgynnol; rhaglenni blaenoriaeth i reoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol ac adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol i atal rhywogaethau estron newydd a sy'n beryglus i'r amgylchedd rhag cael eu cyflwyno, a symud neu fasnachu'r rhywogaethau hyn o fewn awdurodaeth y Cytundebwyr.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU gael mesurau rheoleiddio penodol ar waith ynghylch cyflwyno rhywogaethau anfrodorol, dan erthygl 11 Cyfarwyddeb Adar yr UE<sup>xxv</sup> ac erthygl 22 Cyfarwyddeb Cynefinoedd<sup>xxvi</sup>.

Yn 2001, cytunodd Llywodraethau Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal dirywiad bioamrywiaeth yn yr UE erbyn 2010<sup>xxvii</sup>; a rhan allweddol o'r ymrwymiad hwnnw yw mynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol niweidiol. Roedd Neges Malahide a Chyfaterbiad 2006<sup>vi</sup> y Comisiwn Ewropeaidd ar atal y broses o golli bioamrywiaeth yn annog yr Aelod-wladwriaethau i baratoi strategaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol erbyn 2007, a'u gweithredu erbyn 2010.



## Atodiad 2 – Argymhellion Allweddol “Adolygiad o’r Polisi Rhywogaethau Anfrodorol: Adroddiad y Gweithgor”, Defra, 2003.

### **Argymhelliad allweddol 1:**

Dylai’r Llywodraeth ddynodi neu greu un sefydliad arweiniol cydgysylltiedig i gydgysylltu a sicrhau cysondeb o ran cyflwyno polisiâu rhywogaethau anfrodorol ledled y Llywodraeth.

### **Argymhelliad allweddol 2:**

Datblygu gweithdrefnau asesu risg cynhwysfawr, derbyniol i asesu’r peryglon a achosir gan rywogaethau anfrodorol, a nodi a blaenoriaethu camau i’w hatal.

### **Argymhelliad allweddol 3:**

Datblygu codau ymddygiad i helpu i atal cyflwyniad rhywogaethau ar gyfer yr holl sectorau perthnasol, trwy gydweithio i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.

### **Argymhelliad allweddol 4:**

Datblygu strategaeth addysg ac ymwybyddiaeth wedi’i thargeddu, sy’n cynnwys yr holl sectorau perthnasol.

### **Argymhelliad allweddol 5:**

Diwygio a diweddarau’r ddeddfwriaeth gyfredol i wella’r modd o ymdrin â materion rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

### **Argymhelliad allweddol 6:**

Sefydlu trefniadau monitro a goruchwyllo digonol ar gyfer rhywogaethau anfrodorol ym Mhrydain.

### **Argymhelliad allweddol 7:**

Dylid sefydlu polisiâu ar gyfer rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol sydd eisoes yn bresennol neu sydd newydd gyrraedd yn y gwyllt, a datblygu gallu gweithredol i roi’r polisiâu hyn ar waith.

### **Argymhelliad allweddol 8:**

Dylid ymgynghori ac ymgysylltu’n llawn â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiâu a chamau gweithredu ar rywogaethau anfrodorol goresgynnol, trwy gyfrwng mecanwaith fel fforwm ymgynghori.

# Atodiad 3 – Gweithgor Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anffroddol Goresgynnol Prydain

Bu'r gweithgor yn datblygu'r Strategaeth ddrafft rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2006, gan weithio trwy gyfrwng e-bost a chyfarfod deirgwaith.

## Aelodau:

Steve Ashby	Isadran Iechyd Planhigion, DEFRA
Michelle Calnan	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Jim Collins	Pet Care Trust
Keith Davenport	Ornamental Aquatic Trade Association
David Gilchrist	Horticultural Trades Association
Matthew Hartley	Isadran Goruchwylio, Milheintiau a Materion sy'n Datblygu DEFRA
Deborah Long	Plantlife (cynrychioli Scottish Environment Link)
Ian MacLean	Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
Tony Mitchell-Jones	Natural England
Niall Moore	Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol
Diane Owen	Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol
Lynn, Raw	Sefydliad Uned Filfeddygol Iechyd Anifeiliaid, DEFRA
Trevor Renals	Asiantaeth yr Amgylchedd
Diana Reynolds	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Pete Robertson	Labordy Gwyddoniaeth Canolog
Angela Robinson	Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban
Peter Starling	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Neil Strong	Network Rail
Chris Sydes	Scottish Natural Heritage
Huw Thomas	Isadran Cadwraeth Rhywogaethau Bywyd Gwyllt, DEFRA (Cadeirydd)
Jeff Waage	Imperial College London
Victoria Waite	Yr Adran Drafnidiaeth
Paul Walton	RSPB (yn cynrychioli Wildlife and Countryside Link)
Ruth Waters	Natural England

## Aelodau gohebu:

Dominic Counsell	Scottish Natural Heritage
Bob Davidson	Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth, Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon
Brian Elliott	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
Andy Jones	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Peter Macnab	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

## Atodiad 4 – Mecanwaith Rhywogaethau Anffroddol Prydain

### Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Anffroddol

Cafodd Bwrdd y Rhaglen ei sefydlu ym mis Medi 2005. Mae'n cynnwys uwchgynrychiolwyr Llywodraethau Cymru, yr Alban, Lloegr a'u hasiantaethau sy'n cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau.

Ei amcanion yw:

- pennu, datblygu a gweithredu Strategaeth Prydain-gyfan ar rywogaethau anffroddol;
- llywio a rhoi cyfeiriad strategol i waith y llywodraeth ar rywogaethau anffroddol;
- sefydlu gweithgorau fel ffordd o ymchwilio i faterion penodol, datblygu cynigion a chael cyfraniad rhanddeiliaid;
- penderfynu pa gamau i'w cymryd wrth ymateb i adborth y gweithgor;
- cytuno ar flaenoriaethau gweithredu clir a llywio'r broses o weithredu'r Strategaeth.

Bwrdd y Rhaglen fydd y corff gweithredu allweddol sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rhoi'r Strategaeth ar waith.

### Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol

Cafodd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffroddol ei sefydlu ym mis Mawrth 2006. Ei phrif swyddogaeth yw helpu Bwrdd y Rhaglen i gyflawni ei amcanion. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn atebol i'r Bwrdd, a dyma'r brif ddolen gyswllt rhwng y Bwrdd ac elfennau eraill y fecanwaith a'r rhanddeiliaid ehangach. Er enghraifft, bydd yn gyfrifol am gynnal proses flynyddol y Fforwm Rhanddeiliaid sydd wedi'i sefydlu.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn allweddol wrth gyflwyno'r camau gweithredu a gychwynnwyd gan y Bwrdd, er enghraifft sefydlu gweithgorau i drafod materion penodol a rhoi cymorth ysgrifenyddol i'r panel dadansoddi risg. Hefyd, yr Ysgrifenyddiaeth fydd prif gyfrwng casglu a rhannu gwybodaeth am rywogaethau anffroddol, a'r camau i fynd i'r afael â nhw. Mae cyfle i'r Ysgrifenyddiaeth fod yn ddolen gyswllt bwysig i'r holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â dull strategol Prydain, a byddwn yn gofyn am gefnogaeth y rhanddeiliaid er mwyn datblygu hyn.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd yn meithrin a hwyluso cysylltiadau â'r maes rhywogaethau anffroddol yn Iwerddon, Tiriogaethau Tramor y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, ac Ewrop yn enwedig, ond hefyd dramor yn gyffredinol.

### Panel Dadansoddi Risg Rhywogaethau Anffroddol

Bydd y panel hwn yn gyfrifol am swyddogaethau asesu risg a sganio'r gorwel a fydd yn galluogi Bwrdd y Rhaglen i wneud penderfyniadau strategol a rhai mwy cyffredinol ar fater dyrannu adnoddau a chamau gweithredu. Bydd yn cynnwys panel canolog craidd o arbenigwyr asesu risg â gwybodaeth amrywiol addas am rywogaethau goresgynnol, a chylch allanol o arbenigwyr tacsonomig ac unrhyw arbenigeddau eraill sy'n angenrheidiol i'r panel allu cyflawni ei waith. Ar ôl i'r arbenigwyr pwnc gynnal asesiadau risg unigol, bydd y panel craidd yn bwrw golwg beirniadol arnynt cyn cyflwyno'r asesiad cymeradwy ac unrhyw ddewisiadau rheoli risg i'w hystyried gan Fwrdd y Rhaglen. Efallai y bydd angen i'r Panel adolygu asesiadau risg o bryd i'w gilydd, wrth ddeall y maes yn well.

# Mecanwaith Rhywogaethau Anffroddol Prydain

## Gweithgorau

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn sefydlu Gweithgorau ar ran Bwrdd y Rhaglen, i ystyried materion penodol neu gyflwyno'r canlyniadau penodedig, a byddant ar waith fel bo'r angen. Bydd gan bob gweithgor ei gylch gorchwyl ei hun, ynghyd ag amserlen adrodd a chyfres o amcanion CAMPUS. Byddant yn cael cymorth yr Ysgrifenyddiaeth, ac yn atebol i Fwrdd y Rhaglen.

## Bwrdd Adborth Rhanddeiliaid Rhywogaethau Anffroddol

Mae bwrdd adborth anffurfiol wedi'i sefydlu er mwyn hwyluso prosesau rhyngweithio ac ymgynghori amserol ar faterion priodol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan nad oes modd gwneud hyn mor rhwydd drwy'r fforwm blynyddol. Mae'n cynnwys rhanddeiliaid amrywiol sydd wedi derbyn gwahoddiad Bwrdd y Rhaglen i gymryd rhan mewn proses ymgynghori o dro i dro, a rhoi cyngor ar bob math o faterion sy'n ymwneud â gweithredu mesurau'r Strategaeth.

Does dim rheidrwydd ar aelodau'r bwrdd adborth heblaw am y graddau y maent yn gwirfoddoli i gymryd rhan. Nid yw'r mecanwaith hwn yn cymryd lle unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ehangach lle bo hynny'n briodol, ond bydd yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i unrhyw ymgynghoriad cyn ei roi gerbron y cyhoedd.

## Fforwm Rhanddeiliaid Rhywogaethau Anffroddol

Bydd y Fforwm hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn fel cyfle i bwysu a mesur y cynnydd a'r materion sy'n datblygu gyda'r rhanddeiliaid. Bydd cyfle i drafod materion strategol lefel uchel a ffordd arall o gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau ac amcanion ar rywogaethau anffroddol. Bydd yn sicrhau bod Mecanwaith Prydain yn gweithio'n effeithiol, yn sbarduno trafodaethau ac yn helpu i gyfnewid gwybodaeth.

### Perthynas â Chynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth

Cafodd Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth (UKBAP) ei sefydlu mewn ymateb i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol ym 1992. Paratowyd 391 o Gynlluniau Gweithredu ar gyfer Rhywogaethau (SAP) yn cwmpasu 475 o rywogaethau gwahanol a 45 o Gynlluniau Gweithredu ar gyfer Cynefinoedd (HAP) rhwng 1995 a 1999 ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth. Cyflwynwyd targedau ar gyfer y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ar lefel y DU yn wreiddiol. Pan gyhoeddwyd targedau diwygiedig ym mis Tachwedd 2006, cawsant eu dadansoddi fesul gwlad am y tro cyntaf. Ar ôl cynnal adolygiad 3 blynedd o'r rhestr flaenoriaeth gyda 500 o arbenigwyr, cafodd rhestr ddiwygiedig o Rywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth y DU ei chymeradwyo gan weinidogion 4 gweinyddiaeth y DU, a'i chyhoeddi ym mis Awst 2007. Mae 1149 o rywogaethau a 65 o gynefinoedd ar y rhestr newydd.

Mae'r Cynllun UKBAP wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cadwraeth bioamrywiaeth yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ond mae angen gwneud mwy na dim ond cyflwyno camau gweithredu SAP a HAP yn unig er mwyn cyrraedd targed bioamrywiaeth yr UE yn 2010, sef atal y broses o golli bioamrywiaeth a gwyrddroi'r dirywiad hwnnw. Bellach, rhoddir ystyriaeth i ddatblgu mecanweithiau cyflwyno a fyddai'n fanteisiol i gynefinoedd penodol, neu grwpiau o gynefinoedd, ar raddfa tirwedd/ecosystem er lles rhywogaethau lluosog, tra'n cydnabod bod angen camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhai rhywogaethau o hyd. Mae dogfen "*Conserving Biodiversity – The UK Approach*" a gyhoeddwyd yn 2007 yn adewyrchu hyn. Dyma ddogfen strategol sy'n cydnabod cryfderau partneriaethau ac sy'n cyflwyno fframwaith sy'n ddigon hyblyg i fynd i'r afael â materion ar y raddfa fwyaf priodol. Mae'r ddogfen yn cydnabod bod angen inni fynd i'r afael â pherygl rhywogaethau goresgynnol fel mater trawsbynciol.

Ar ben hynny, mae'r cyfrifoldeb dros warchod bioamrywiaeth wedi'i ddatganoli. Mae gan wledydd unigol eu strategaethau bioamrywiaeth eu hunain sy'n cyflwyno'r weledigaeth a'r dull ar gyfer pob ardal ddaearyddol.

Mae rhywogaethau goresgynnol yn gallu effeithio ar unrhyw beth, o rywogaeth unigol neu nifer fach o rywogaethau brodorol i gynefinoedd cyfan, o ardal leol i ardal ehangach. Felly, gellir defnyddio dull cenedlaethol i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol, neu ganolbwyntio ar rywogaethau goresgynnol â thargedau fwy lleol neu gynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth ehangach, neu fel rhan o HAP neu SAP penodol – a bydd rhaid i'r dull dan sylw ystyried y mecanweithiau hyn. Hefyd, mae'r mecanweithiau hyn yn ffordd arall o bwysleisio effaith rhywogaethau anffrodorol goresgynnol.

Fel arwydd o bwysigrwydd y pwnc, mae'r cyhoeddiad '*Biodiversity Indicators in Your Pocket*' (<http://www.jncc.gov.uk/default.aspx?page=3921>) yn cynnwys dangosydd (sydd wrthi'n cael ei ddatblygu) ar gyfer rhywogaethau goresgynnol, gyda chanolbwynt arbennig ar faes 3, Peryglon Bioamrywiaeth.

Dyma ddolenni cyswllt y strategaethau cenedlaethol:

#### Lloegr:

*"Working with the grain of nature: a biodiversity strategy for England"*  
<http://defraweb/wildlife-countryside/biodiversity/biostrat/index.htm>

#### Yr Alban:

*"Scotland's Biodiversity: It's in Your Hands – A strategy for the conservation and enhancement of biodiversity in Scotland"*  
<http://www.scotland.gov.uk/Publications/2004/05/19366/37239>

# Strategaethau Cysylltiedig Allweddol

## Cymru:

“Fframwaith Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru”

Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel arweiniad cychwynnol i:

- nodi'r ffactorau ymarferol, polisi a deddfwriaeth allweddol ar gyfer gwarchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru;
- amlinellu'r mecanweithiau ar gyfer hyrwyddo gweithredu cadarnhaol;
- esbonio swyddogaethau a chylch gorchwyl pawb sy'n gyfrifol am weithredu ar fioamrywiaeth; a
- creu cysylltiadau i'r dulliau a gwybodaeth sydd o gymorth i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

<http://www.biodiversitywales.org.uk/english/Library/default.aspx?pid=1>

## Strategaeth Iechyd Planhigion

Roedd adolygiad polisi rhywogaethau anffroddorol 2003 yn nodi bod rhai o'r mesurau sy'n angenrheidiol i atal, rheoli neu ddileu rhywogaethau anffroddorol eisoes ar waith yn y sector iechyd planhigion. Gwelwyd bod modd addasu technegau asesu risg a ddatblygwyd gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewropeaidd a Môr y Canoldir, er mwyn eu defnyddio gyda rhywogaethau anffroddorol ehangach.

Yn 2005, mabwysiadwyd Strategaeth Iechyd Planhigion ar gyfer Lloegr yn sgil ymgynghoriad helaeth, a oedd yn cydnabod y peryglon uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r amgylchedd naturiol a achosir gan blâu planhigion.

Roedd y Strategaeth Iechyd Planhigion yn nodi bod arolygwyr iechyd planhigion, wrth archwilio mewnforion, wedi darganfod organebau a allai fod yn anghyfreithlon o dan Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Roedd yn cydnabod bod angen egluro cyfrifoldebau'n well yn yr amgylchiadau hyn, a bydd angen bwrw ymlaen â hyn wrth weithredu'r Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anffroddorol ac wrth ystyried y newidiadau deddfwriaethol posibl.

Gan fod y plâu a chlefydau planhigion hynny sy'n rhan o gylch gorchwyl Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain yn rhywogaethau anffroddorol eu hunain, mae'r agwedd hon ar atal mynediad, rheoli a dileu rhywogaethau anffroddorol niweidiol eisoes wedi'i chwmpasu. Trwy weithredu'r Strategaeth Iechyd Planhigion felly, mae hynny'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion cyffredinol y Strategaeth.

## Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid Prydain

Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid yn berthnasol i anifeiliaid sy'n cael eu cadw – anifeiliaid sydd, am ba bynnag reswm, o dan reolaeth pobl. Mae hyn yn cynnwys holl anifeiliaid fferm; cathod, cŵn ac anifeiliaid eraill sy'n cael eu cadw fel cydymaith neu mewn sw; a hefyd deori a magu pysgod a physgod cregyn ar gyfer bwyd neu'r fasnach addurnol.

Nod y Strategaeth yw datblygu partneriaeth newydd lle gall pawb wneud gwelliannau parhaus i iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw tra'n diogelu cymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd rhag effeithiau clefydau anifeiliaid.



# Strategaethau Cysylltiedig Allweddol

Dan arweiniad y Strategaeth, mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill yn arbennig, er mwyn gwella'r modd rydyn ni'n monitro, asesu a rheoli'r bygythiadau i iechyd anifeiliaid sy'n cael eu cadw (ac iechyd y cyhoedd trwy hynny).

Mae rhywogaethau anfrodorol yn fygythiad posibl i anifeiliaid sy'n cael eu cadw oherwydd gallant ddod â chlefydau egsoftig gyda nhw i'r wlad, neu fe allant gario clefydau i anifeiliaid cadw ar ôl ymsefydlu yma.

Cynhelir dadansoddiad risg ac ymarfer sganio'r gorwel er mwyn asesu'r peryglon yn sgil clefydau. Mae hyn yn cael ei ystyried a'i gymharu ag ymyriadau'r llywodraeth, cyn cymryd camau addas a phriodol.

## Strategaeth Iechyd Bywyd Gwyllt Lloegr

Nod y Strategaeth hon fydd sicrhau bod statws clefydau bywyd gwyllt yn cael ei ystyried a'i gydbwyso â buddiannau a chyfrifoldebau cymdeithas, gan gynnwys iechyd pobl, gweithgarwch economaidd, bioamrywiaeth, iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw, a'r angen i sicrhau bod pobl/bywyd gwyllt yn rhyngweithio'n gyfrifol. Bydd hefyd yn datblygu dull cymesur, ar sail risg, o ran goruchwyllo a rheoli iechyd bywyd gwyllt ac ymyrraeth uniongyrchol, lle bo hynny'n briodol. Bydd gweithredu'r Strategaeth yn sicrhau bod y sylfaen asedau naturiol yn cael ei gynnal a'i ddiogelu.

Bydd meysydd allweddol y Strategaeth yn canolbwyntio ar reoli'r dasg o oruchwyllo clefydau bywyd gwyllt, diogelu bywyd gwyllt y DU rhag clefydau newydd, ac ystyried effeithiau clefydau bywyd gwyllt ar gadwraeth a bioamrywiaeth.

Tra bydd Strategaeth Iechyd Bywyd Gwyllt yn canolbwyntio ar bathogenau, a'r Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn canolbwyntio ar anifeiliaid cyfan, bydd cysylltiadau pwysig rhyngddynt hefyd – er enghraifft, er bod rhywogaeth anfrodorol yn fector neu'n gludwr clefyd bywyd gwyllt, ni fydd ei ymddygiad seicolegol ei hun yn cael effaith ecolegol niweidiol.

Felly, bydd rhywfaint o gysylltiad cyffredinol mewn dadansoddi risg a sganio'r gorwel o ran rhywogaethau anfrodorol, goruchwyllo a monitro, ac o bosibl gallu a gweithdrefnau ymateb cyflym. Er hynny, bydd y broses o orchymyn o ran unrhyw ymyriadau yn wahanol, a byddwn yn datblygu'r berthynas hon wrth i'r ddwy strategaeth ddatblygu a chael eu gweithredu.

## Strategaeth ddrafft Asiantaeth yr Amgylchedd – “Restoring the balance”

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cyfraniad arfaethedig Asiantaeth yr Amgylchedd at strategaeth rhywogaethau anfrodorol goresgynnol Prydain. Mae'n pwysleisio'r angen am ymateb cyflym ar ôl canfod rhywogaethau anfrodorol am y tro cyntaf, a bod angen meithrin dull cynaliadwy ar sail risg i reoli'r rhywogaethau hynny y gellir eu cynnal neu eu rheoli. Disgrifir swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd o safbwynt cyfrifoldebau cyfreithiol, rhywogaethau sy'n destun pryder, camau gweithredu rheoli, a gweithgareddau ymgynghori. Bydd yn meithrin cysylltiadau lleol a rhanbarthol, rhannu gwybodaeth a gweithredu arferion gorau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

## Confensiwn Rhyngwladol ar Reoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau, a Strategaeth Rheoli Dŵr Balast Gogledd-orllewin Ewrop

Roedd adroddiad adolygiad [DEFRA 2003](#) yn nodi mai dŵr balast llongau yw prif gyfrwng neu lwybr cyflwyno rhywogaethau anfrodorol i'r moroedd, a'i bod hi'n angenrheidiol cyfnewid dŵr fel bod llongau'n gweithio'n ddiogel.

# Strategaethau Cysylltiedig Allweddol

Mae'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO) yn gweithio'n galed i leihau neu ddileu'r perygl o ollyngiadau dŵr balast sy'n cyflwyno rhywogaethau anfrodorol i ddyfroedd derbyn (IMO). Cafodd y Confensiwn Rhyngwladol ar Reoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau ei fabwysiadu mewn Cynhadledd Ryngwladol ar Reoli Dŵr Balast a Gwaddodion Llongau (Confensiwn Rheoli Dŵr Balast 2004). Dim ond dan Reolaeth Dŵr Balast y gellir gollwng dŵr balast, yn unol â darpariaethau Atodiad y Confensiwn. Hefyd, mae'r Sefydliad wedi datblygu cyfres o ganllawiau i gyd-fynd â'r Confensiwn, fel canllawiau ar gyfer dynodi ardaloedd cyfnewid dŵr balast, cyfleusterau derbyn dŵr balast, a chanllawiau ar reoli sefyllfaoedd argyfyngus. Mae'r Confensiwn wedi sbarduno'r broses o ddatblygu amrywiaeth o systemau technolegol a rheoli a fydd yn lleihau'r perygl o gyflwyno rhywogaethau anfrodorol goresgynnol trwy ddŵr balast. Disgwylir i fesurau Confensiwn IMO ddod i rym yn 2009, a bydd ar waith hyd at 2016.

Trwy gynnwys Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, bydd Llywodraeth y DU yn cyfrannu at y Strategaeth ac yn parhau i fod â rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu Strategaeth Rheoli Dŵr Balast dros dro i Ogledd-orllewin Ewrop. Mae'r Strategaeth hon yn cael ei datblygu ar y cyd â gwledydd eraill yn Rhanbarth OSPAR a bydd yn gydnaws â datblygiadau perthnasol y Sefydliad IMO. Mae cam 2 y Strategaeth wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd yn mynd i'r afael â lluo o faterion gan gynnwys asesu risg, dewisiadau rheoli, defnyddio biodaleithiau fel unedau rheoli, casglu gwybodaeth a sefydlu system hysbysu ar gyfer argyfyngau biolegol. Hefyd, disgwylir y bydd y Sefydliad IMO yn ystyried llwybr cyrff llongau sy'n baeddu maes o law.

## Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr y CE

Nid yw Cyfarwyddeb Fframwaith dŵr y CE (y Gyfarwyddeb) yn cyfeirio'n benodol at rywogaethau goresgynnol estron. Er hynny, mae Atodiad II ac Atodiad V yn nodi bod angen eu hasesu, fel 'pwysau' amgylcheddol ac oherwydd eu bod yn tansilio 'naturioldeb', sef egwyddor allweddol y Gyfarwyddeb hon. Mae angen cyflawni sawl tasg bwysig er mwyn defnyddio mecanweithiau'r Gyfarwyddeb i fynd i'r afael â phroblemau rhywogaethau estron effeithiol. Er enghraifft, mae angen defnyddio dulliau monitro ecolegol i olrhain presenoldeb ac effaith rhywogaethau goresgynnol; mae angen cynlluniau gweithredu i reoli rhywogaethau estron o fewn rhaglen o fesurau'r Gyfarwyddeb; ac mae angen cytuno ar sut ddylai rhywogaethau estron effeithio ar ddsbarthu statws ecolegol. Mae'r pwynt olaf yn bwysig o safbwynt gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gyhoeddi'r cynlluniau rheoli basn afonydd cyntaf yn 2009. Mae'r pwnc hwn wedi'i drafod cryn dipyn yn y DU, a chyflwynwyd cynnig gerbron Grŵp Cynghori Technegol y DU i'w ystyried. Os caiff ei weithredu, byddai'r weithdrefn hon yn cael ei defnyddio i ddsbarthu cyrff dŵr ar sail statws uchel a da yn ôl presenoldeb a/neu effaith rhywogaethau estron penodol sy'n achosi niwed difrifol i rywogaethau a chynefinoedd brodorol.

Mae'r ffaith fod hon yn Gyfarwyddeb Ewropeaidd yn golygu bod angen safbwynt yr UE ar y modd mae'r Gyfarwyddeb yn ymdrin â materion rhywogaethau estron. Mae grŵp ECOSTAT y Comisiwn Ewropeaidd yn dechrau trin a thrafod y materion hyn, gan gynnwys defnyddio rhywogaethau estron wrth ddsbarthu statws ecolegol, a'r modd y gellir defnyddio 'rhaglen o fesurau'r' Gyfarwyddeb hon i fynd i'r afael â rhai o'r problemau.

Er nad yw Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol Prydain yn cyfeirio'n benodol at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae'n cyflwyno cyfres o amcanion strategol a ddylai fod yn rhan o'r broses o weithredu'r Gyfarwyddeb. Maent yn cynnwys atal, canfod yn gynnar, lliniaru, a chodi ymwybyddiaeth. Lle bo rhywogaethau anfrodorol yn gyfrifol am leihau statws ecolegol cyrff dŵr dan y Gyfarwyddeb, y gobaith yw y bydd partneriaeth o gyrrff perthnasol yn mynd i'r afael â materion a lefel dalgylchoedd trwy ddefnyddio mesurau o'r fath.

## **Fframwaith Gweithredu ar Rywogaethau, Scottish Natural Heritage**

Mae Fframwaith Gweithredu ar Rywogaethau (Ionawr, 2007) Scottish Natural Heritage (SNH) yn cyflwyno fframwaith ar gyfer rheoli rhywogaethau yn yr Alban, ac yn darparu rhestr o'r rhywogaethau hynny lle gallai camau gweithredu clir wedi'u targedu dros y pum mlynedd nesaf wneud byd o wahaniaeth i fioamrywiaeth. Ceir disgrifiad o bedair sefyllfa lle gall rheoli rhywogaethau fod yn briodol i sicrhau amcanion bioamrywiaeth, sef: gwarchod rhywogaethau, rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, gwrthdaro buddiannau sy'n ymwneud â rhywogaethau brodorol, a defnyddio rhywogaethau yn gynaliadwy. Y rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a nodir yn y ddogfen yw'r rhywogaethau hynny sydd eisoes wedi ymsefydlu yn yr Alban, ac a aseswyd fel rhai sy'n achosi'r bygythiad mwyaf i fioamrywiaeth o werth cadwraeth uchel.

Mae'r camau gweithredu posibl ar gyfer y rhywogaethau anfrodorol goresgynnol a restrir yn cynnwys rheoli unigolion i leihau'r boblogaeth neu gyfyngu eu symudiadau, neu ymdrechion i addasu'r gweithgarwch dynol sy'n cyfrannu at ledaenu'r rhywogaethau hyn (trwy gyflawni neu orfodi deddfwriaeth, cytundebau gwirfoddol, neu thrwy addysgu a hyrwyddo codau ymarfer). Mae gweithredu'r Fframwaith hwn felly yn cyfrannu at Strategaeth Fframwaith Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol ehangach Prydain.

Mae'r Fframwaith Gweithredu ar Rywogaethau yn dweud y dylid canolbwyntio at atal y rhywogaethau anfrodorol hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn niweidiol, rhag cyrraedd ac ymsefydlu yn y lle cyntaf – gan ei bod hi'n ddrud ac yn anodd iawn eu rheoli neu ddileu unwaith y maent wedi cyrraedd. Serch hynny, does dim modd rhagweld yn bendant pa rywogaethau a fyddai'n cyrraedd yr Alban ac yn ymsefydlu yno, ac felly nid yw'r Fframwaith yn cyfeirio at rywogaethau anfrodorol goresgynnol posibl y dyfodol. Yn hytrach, bydd SNH yn cydweithio â Gweithgor Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yr Alban (a Bwrdd Rhaglen Prydain) i gymryd camau ataliol. Bydd Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain yn helpu i roi arweiniad clir a fframwaith ar gyfer pennu blaenoriaethau'r dyfodol.

## **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru**

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd, ac yn esbonio sut y bydd yn mynd i'r afael â'r holl her sy'n ei wynebu dros yr 20 mlynedd nesaf.

[http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/Envstratforwales/about\\_the\\_strategy/?lang=cy](http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/Envstratforwales/about_the_strategy/?lang=cy)

## Atodiad 6 – Rhestr Fyrfoddau Saesneg

CBD	Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol
EPPO	Sefydliad Diogelu Planhigion Ewropeaidd a Môr y Canoldir
GISP	Rhaglen Rhywogaethau Goresgynol Byd-eang
GMO	Organeb a Addaswyd yn Enetig
IAS	Rhywogaethau Goresgynol Estron
IMO	Sefydliad Morol Rhyngwladol
INNS	Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynol
IPPC	Confensiwn Rhyngwladol Diogelu Planhigion
ISAP	Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Goresgynol
IUCN ISSG	Gŵrp Arbenigol Undeb Cadwraeth y Byd ar Rywogaethau Goresgynol
NERC	Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig [2006]
NNS	Rhywogaethau Anfrodorol
OIE	Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd
PAP	Cynllun Gweithredu Llwybrau
RAP	Panel Dadansoddi Risg
SSB	Bwrdd Adborth Rhanddeiliaid
UK BAP	Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth
UK BRAG	Gŵrp Cyngori'r DU ar Ymchwil Bioamrywiaeth
WTO	Sefydliad Masnach y Byd

## Atodiad 7 – Cyfeiriadau

- i Cyflwyniad i Rywogaethau Goresgynol Estron y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol: <http://www.biodiv.org/programmes/cross-cutting/alien/default.aspx>
- ii Adroddiadau Asesu Ecosystem y Mileniwm: <http://www.maweb.org/documents/document.354.aspx.pdf>
- iii Adroddiad adolygiad o'r polisi rhywogaethau anffrodorol 2003: <http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/resprog/findings/non-native/report.pdf>  
Atodiadau yn: <http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/resprog/findings/non-native/annexes.pdf>
- iv Confensiwn Cadwraeth Bywyd Gwylt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Bern) – Strategaeth Rhywogaethau Goresgynol Estron Ewropeaidd: [http://www.jncc.gov.uk/pdf/BRAG\\_NNS\\_Genovesi&Shine-EuropeanStrategyonInvasiveAlienSpecies.pdf](http://www.jncc.gov.uk/pdf/BRAG_NNS_Genovesi&Shine-EuropeanStrategyonInvasiveAlienSpecies.pdf)
- v Atodiadau i Communication from the Commission – Halting the Loss of Biodiversity by 2010 – and Beyond: [http://ec.europa.eu/environment/nature/biodiversity/comm2006/pdf/sec\\_2006\\_621.pdf](http://ec.europa.eu/environment/nature/biodiversity/comm2006/pdf/sec_2006_621.pdf)
- vi Communication from the Commission – Halting the Loss of Biodiversity by 2010 – and Beyond: [http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/com/2006/com2006\\_0216en01.pdf](http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/com/2006/com2006_0216en01.pdf)
- vii **Rhywogaethau anffrodorol:** rhywogaethau, is-rywogaethau neu is-ddosbarth a gyflwynwyd (h.y. trwy weithred dynol) y tu allan i'w gynefin naturiol yn y gorffennol neu'r presennol; gan gynnwys unrhyw ran, gamet, hadau, wyau, neu egin rhywogaethau a all oroesi ac atgynhyrchu wedyn.
- viii Ystyr rhywogaethau goresgynol estron yw rhywogaethau a gyflwynwyd yn fwiadol neu'n anffriadol y tu allan i'w cynefinoedd naturiol, lle maent yn gallu ymsefydlu, goresyn, trechu'r rhywogaethau brodorol a chymryd drosodd amgylcheddau newydd. Gweler: <http://www.biodiv.org/programmes/cross-cutting/alien/default.aspx>
- ix y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol
- x Ni ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol am oblygiadau amrywiol goresgyniad fel rheswm dros ohirio neu fethu â chymryd mesurau dileu, cynnal a rheoli priodol. Gweler Egwyddor Arweiniol 1 yn: <http://www.biodiv.org/decisions/default.aspx?m=COP-06&id=7197&lg=0>
- xi Rheoliad Masnach Bywyd Gwylt yr UE: <http://www.unep-wcmc.org/species/trade/eu/>
- xii Mae adroddiad adolygiad polisi 2003 yn cyfeirio at nifer o lwybrau cyflwyno yn atodiad 5: <http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/resprog/findings/non-native/annexes.pdf>
- xiii Adolygiad o deddfwriaeth ac arweiniad ar rywogaethau anffrodorol: <http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/resprog/findings/non-native/ecoscope.pdf>
- xiv Cyflwyno rhestrau o rywogaethau estron yn Ewrop. <http://www.daisie.se/>
- xv ALARM yw prosiect 6<sup>ed</sup> Fframwaith yr UE sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Leipzig Halle, lle cynhaliwyd nifer o brosiectau ymchwil. <http://www.alarmproject.net/alarm/>
- xvi Strategaeth BRAG ar gyfer ymchwil rhywogaethau anffrodorol: <http://www.ukbap.org.uk/library/brag/NonNativeSpeciesResearchStrategy.pdf>
- xvii Confensiwn Bern <http://conventions.coe.int/Treaty/EN/Treaties/Html/104.htm>
- xviii y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol
- xix <http://www.cbd.int/decisions/default.shtml?m=COP-05&id=7150&lg=0>
- xx <http://www.cbd.int/decisions/cop-06.shtml?m=COP-06&id=7197&lg=0>
- xxi <http://www.cbd.int/decisions/cop-07.shtml?m=COP-07&id=7750&lg=0>
- xxii <http://www.cbd.int/decisions/cop-08.shtml?m=COP-08&id=11041&lg=0>
- xxiii Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol [http://www.ramsar.org/key\\_sitelist.htm](http://www.ramsar.org/key_sitelist.htm)
- xxiv [http://www.ramsar.org/res/key\\_res\\_vii.14e.htm](http://www.ramsar.org/res/key_res_vii.14e.htm)
- xxv Cyfarwyddeb 79/409/EEC y Cyngor ar ddiogelu adar gwylt (Cyfarwyddeb Adar yr UE): [http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm)
- xxvi Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE: [http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/habitatsdirective/index_en.htm)
- xxvii Casgliadau'r Llywyddiaeth, Cyngor Ewropeaidd Gothenburg, Mehefin 2001.





